

**TYSTYSGRIF I RADDEDIGION mewn
Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol
LEFEL 6 - 60 Credyd**

**PORTFFOLIO'R DYSGWR
(PORTH AGORED a Phrifysgol Cymru y Drindod
Dewi Sant)**

Enw'r Dysgwr: Christina Darbyshire-Jones

Rhif cofrestru Prifysgol y Dysgwr: 1404245

**SEFYDLIAD CYMRU ar gyfer DYSGU YN SEILIEDIG AR
WAITH
2016-2017**

Canllaw Portffolio

Darllenwch y nodiadau hyn yn ofalus, os gwelwch yn dda. Mae gwybodaeth hanfodol ynddynt. Mae'r dogfennau y byddwch chi yn eu defnyddio i ddatblygu eich portffolio i'w gweld ar y tudalennau nesaf.

Beth yw diben y portffolio?

Pwrpas y portffolio hwn yw galluogi dysgwyr i arddangos a darparu tystiolaeth o sut maent yn cwrdd â'r canlyniadau dysgu a osodwyd gan Gyngor Gofal Cymru, i'r Rhaglen Gyfnerthu, gan gynnwys:

- Defnyddio dadansoddi mewn asesu i gyfarwyddo ymyrraeth;
- Ymyrraeth a defnyddio barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd sy'n gynyddol gymhleth;
- Gweithio ar y cyd gyda defnyddwyr gwasanaeth, gofawyr a gweithwyr proffesiynol eraill;

Cytundeb dysgu rhwng y dysgwr a'r cyflogwr

Yn Adran 9 o'r Portffolio, fe welwch gopi o gytundeb dysgu gwag y mae angen i chi ei ddarllen, ei drafod a'i gytuno gyda'ch mentor, rheolwr a rheolwr hyfforddi/cydlunydd. Unwaith fo'r cytundeb wedi ei arwyddo gosodwch yn ôl yn Adran 9 o'r portffolio.

Sut ddylid cyflwyno'r Portffolio?

Rhaid teipio'r deunydd yr ydych yn ei ysgrifennu yn y portffolio. Gellir dod o hyd i wybodaeth am hyn yn Llawlyfr y Rhaglen. Rhaid cyflwyno'r holl bortffolio yn electronig. Rhaid i'r portffolio fod wedi ei gwblhau pan fydd yn cael ei gyflwyno.

Sut mae'r Portffolio yn cael ei asesu?

Yn ystod y rhaglen, darperir cyngor am ddatblygiad eich portffolio fel rhan o bedwar gweithdy Cadarnhau gorfodol, a gan eich mentor. Darperir adborth ar holl agweddau'r gwaith yr ydych yn ei wneud i ddatblygu'r portffolio fel rhan o'r gweithdai hyn. Ni fydd eich mentor na'r staff hyfforddi y byddwch wedi eu gweld fel rhan o'r gweithdai Cyfnerthu, yn gysylltiedig â marcio eich portffolio ar ôl ei gyflwyno. Bydd y dogfennau Portffolio yn cael eu marcio yn briodol gan staff cymwys y tu allan i'r sefydliad sy'n eich cyflogi.

Fel arfer, bydd dyddiadau i gyflwyno portffolio ar gael yn ystod y cwrs cyflwyno, mewn cyfarfodydd gweithdy cyfnerthu ac yn cael eu rhoi ar Moodle.

Cyfrinachedd

Mae hi yn bwysig nad oes modd adnabod unrhyw unigolyn yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o'r wybodaeth sydd yn y portffolio. Rhaid i chi:

- llynu at y canllaw yn Llawlyfr y Rhaglen am gyfrinachedd;
- beidio enwi eich Awdurdod Lleol/cyflogwr na chyfeirio at nodweddion daearyddol, corfforol neu nodweddion eraill y gellid eu hadnabod. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio yn y llyfryddiaeth at bolisiau e.e. defnyddiwch 'bolisi awdurdod xxx';
- beidio ag enwi unrhyw unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau, eu teuluoedd na'u gofalwyr. Yn hytrach, dylech ddefnyddio rhifau e.e. 1, 2, 3 ac ati. a nid llythrennau;
- beidio ag ysgrifennu gwybodaeth sy'n galluogi i unrhyw unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd na'u gofalwyr i gael eu hadnabod drwy'r disgrifiad a ddarparwyd gennych. Mae hyn yn cynnwys cyfeirio at enwau, cydweithwyr, lleoedd (yn cynnwys ysbytai, ysgolion trefi, pentrefi, strydoedd) unrhyw ddigwyddiadau penodol a fedrai olygu adnabod rhywun oherwydd cyhoeddusrwydd yn y gorffennol, gweithwyr proffesiynol eraill neu unrhyw wybodaeth bersonol gan gynnwys gwybodaeth feddygol neu gyflyrau eraill;
- cymryd cyfrifoldeb personol am llynu at reolau cyfrinachedd. Er y bydd gweithdai Cadarnhau ac adborth am eich portffolio yn darparu arweiniad ac adborth, cyfrifoldeb y dysgwr yw sicrhau fod y portffolio yn glynu at y gofynion cyfrinachedd a nodir yn y llawlyfr ac uchod.

Cofiwch, eich cyfrifoldeb CHI yw eich Portffolio ac ni ddylech ddibynnu ar unrhyw un arall i nodi unrhyw gyfrinachedd gaiff ei dorri gan mai eich gwaith chi ydyw. Rhaid i chi dderbyn cyfrifoldeb llawn am gyfrinachedd. Mae cwrdd â'r holl ofynion cyfrinachedd yn bwysig iawn. Gall torri'r rheolau cyfrinachedd olygu cosb gan gynnwys tynnu marciau neu fethu, edrychwch ar y llawlyfr i gael y manylion.

Dyslecsia ac amgylchiadau arbennig eraill

Os oes gennych unrhyw gyflwr y credwch y gallai effeithio ar eich gallu i ddelio gydag unrhyw ran o'r rhaglen, dylech gysylltu â'ch adran hyfforddi ar unwaith i drafod unrhyw gefnogaeth ychwanegol y byddwch efallai ei angen. Mae gan y Brifysgol Uned Gwasanaethau Myfyrwyr a fedrai eich helpu, ond cyfrifoldeb y dysgwr ei hun yw cysylltu â hwy.

Adran 1.

Tystysgrif i Raddedigion mewn Cadarnhau Ymarfer Gwaith Cymdeithasol - Portffolio'r Dysgwr

Canllawiau:

- Rhaid i'ch portffolio gynnwys eitemau 1 - 9 isod (yn ôl y drefn a nodir);
- Dylech ddefnyddio'r pro-forma yma i osod eich gwaith ymhob adran;
- Gwnewch yn siŵr fod y dudalen llofnodion yn Adran 8 wedi ei llenwi cyn cyflwyno'r portffolio

Cynnwys

Adran y Portffolio	Pwnc	Tasg rhif
1	Tudalen Gynnwys	
2	Adolygiad Datblygiadol	1
3	Arsylwi ac adborth	2
4	Diogelu a gweithio mewn sefyllfaoedd cymhleth - Astudiaeth Achos	3
5	Diogelu	4
6	Adolygiad Datblygiadol	1
7	Llyfryddiaeth	
8	Manylion a llofnodion dysgwyr a gwiriad Rheolwr Llinell	
9	Cytundeb Dysgu Dysgwr a Chyflogwr	

Adran 2

Adolygiad Datblygiadol (a)

Canllawiau: Dylid llenwi'r adran hon drwy ystyried y gwaith y byddwch wedi ei wneud ers cymhwyso, a'r trafodaethau gyda'ch mentor a goruchwyliwr/rheolwr llinell fel rhan o'ch Cynllun Ymarfer Unigol am y Tair Blynedd Gyntaf.

Ar sail eich profiad yn ymarferol, nodwch a chyfiawnhewch eich anghenion dysgu cytunedig ar gyfer y canlyniadau a ganlyn:

- Gweithio ar y Cyd gydag defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr
- Gweithio ar y cyd gyda gweithwyr proffesiynol eraill
- Defnyddio dadansoddi mewn asesu i gyfarwyddo ymyrraeth
- Ymyrraeth a defnyddio barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd sy'n gynyddol gymhleth

500 gair (+/- 10%: dylech gynnwys nifer y geiriau ar ddiwedd pob rhan)

Bu i mi raddio fel gweithiwr cymdeithasol cyn i Ddeddf Lleisiant a Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 dod mewn i rym. Ar gyfer gweddill y portffolio byddaf yn cyfeirio at y Ddeddf fel DLIGCC 2014). Rwyf wedi gweithio mewn 3 tîm gwahanol o fewn dau Awdurdod lleol, mae hyn wedi rhoi amryw o brofiadau i mi. Erbyn hyn rwy'n gweithio mewn tîm sy'n cefnogi plant gydag anableddau dysgu ag anableddau corfforol.

Fel gweithiwr newydd gymhwyso roeddwn yn teimlo'n ddi-bwer o gymharu â fy nghydweithwyr a rheolwr llinell, nid oeddwn yn hyderus i herio penderfyniadau os nad oeddwn yn cytuno. Dywed Zastrow ei bod yn arferol i unigolion sy'n teimlo'n llai pwerus i beidio herio unigolion sy'n cael eu gweld yn fwy pwerus am eu bod yn ofni'r goblygiadau o wneud hyn. (2008,71) Rwyf hefyd yn teimlo bod hyn yn wir gydag unigolion sy'n derbyn gwasanaeth. Trwy weithio gyda nifer o unigolion daeth yn amlwg bod nifer fawr ohonynt yn teimlo'n ddi-bwer ac yn ofni gweithwyr cymdeithasol. Dywed Gardner fod hyn yn rhywbeth tra gyffredin a'i bod yn bwysig i weithwyr cymdeithasol fod yn ymwybodol o hyn. Gall hefyd arwain defnyddwyr gwasanaeth i deimlo nad oes ganddynt reolaeth dros fywydau eu hunain. (2014, 29). Rwy'n teimlo bod ceisio datrys yr anghydbwysedd pŵer yn rhywbeth sydd angen i mi ddatblygu ymhellach trwy fynychu hyfforddiant, gan fod gweithio ar y cyd gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn ogystal â gweithwyr proffesiynol eraill yn rhan hanfodol o'r DLIGCC 2014.

Rwyf hefyd yn teimlo bod datblygu sgiliau dadansoddi mewn asesu yng nghyd-destun y DLIGCC 2014 a'r dogfennau sy'n gyd fynd a'r Ddeddf yn rhywbeth sydd angen i mi ei ddatblygu gan fod y dogfennau yn wahanol iawn i'r rhai blaenorol. Mae dadansoddiad clir mewn asesiad yn hanfodol ar gyfer deall digwyddiadau a datblygu dealltwriaeth glir o'r sefyllfa. (Milner et al, 2015,4) Mae hyn yn hanfodol ar gyfer cyfarwyddo fy ymyrraeth ar gyfer y dyfodol, ac ar gyfer fy natblygiad personol. Rwy'n gobeithio gallu cyflawni hyn drwy drafod gyda gweithwyr mwy profiadol a trwy ymchwil personol.

Mae'r mathau o achosion rwy'n delio gydag wedi newid ers i mi gymhwyso, rwyf yn delio gyda rhai achosion cymhleth ble mae gan y plant/ pobl ifanc anghenion dwys iawn. Rwy'n teimlo mai un o'r meysydd pwysicaf rwyf eisiau datblygu ydi sgiliau cyfathrebu gyda phlant ag anawsterau cyfathrebu. Mae sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei gofnodi o fewn y dogfennau yn hanfodol gyda DLIGCC 2014.

Dywed Lefevre ei bod yn bwysig cofio nad yw plant bob tro'n cyfathrebu ar lafar a'i bod yn bwysig defnyddio ffyrdd eraill o gyfathrebu e.e. cyfathrebu drwy chwarae. (2010,15). Rwy'n gobeithio gallu datblygu ffyrdd amrywiol o gyfathrebu gydag unigolion trwy fynychu hyfforddiant a chael gwybodaeth gan unigolion sy'n adnabod anghenion y plant/ pobl ifanc.

I'n nghynorthwyo i ddatblygu fy ymarfer ymhellach byddaf yn sicrhau fy mod yn trafod fy anghenion dysgu mewn goruchwyliaeth reolaidd gyda fy rheolwr llinell, byddaf hefyd yn defnyddio model adlewyrchu "The Big Six" gan fy mod yn teimlo bod y model yma'n berthnasol iawn i'r ffordd rwy'n adlewyrchu ar fy ngwaith.

Nifer geriau:514

Adran 3

Sylwadau gan unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teulu a gofalwyr

Canllawiau: Rhaid i ddysgwr ddewis arsylwad sy'n ymwneud yn uniongyrchol gydag ymarfer gwaith cymdeithasol gydag unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau, teuluoedd a gofalwyr a chofnodi hyn ar y ffurflen isod. Ni all yr arsylwi ddod o roi tystiolaeth mewn llys, cyfrannu at gyfarfodydd grŵp strategol, cynadleddau achos neu dribiwnlysoedd neu unrhyw weithgaredd anuniongyrchol arall. Mae'n rhaid gofyn caniatâd y sawl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, eu teuluoedd a/neu eu gofalwyr cyn cynhelir y gwaith arsylwi. Rhaid i'r gwaith arsylwi gael ei wneud gan arsyllwr sydd â chymwysterau gwaith cymdeithasol gydag o leiaf tair blynedd o brofiad (meini prawf wedi eu gosod yn Llawlyfr y Rhaglen). Rhaid i'r arsylwi fod yn o leiaf 30 munud o hyd. Bydd yr arsyllwr yn derbyn adborth gan yr unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaethau, eu teuluoedd a/neu eu gofalwyr gan ddefnyddio'r ffurflen isod ar ddiwedd yr ymweliad.

Er y gall y dysgwr ddewis defnyddio'r ffurflenni a ddarparwyd i gasglu adborth, fe'i hanogir i wneud hyn mor fanwl â phosib gan ddefnyddio ystod o ffyrdd casglu, yn dibynnu ar oed, gallu ac anghenion yr unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaethau, eu teuluoedd neu ofalwyr.

Wrth lenwi'r adran yma dylech wyllo'r pedwar clip fideo o 'Mwy na Geiriau' ar Moodle gan y gallai'r rhain eich helpu i feddwl am eich profiadau eich hunan a myfyrio pam y dylai iaith fod yn rhan hanfodol o asesu a darpariaeth gwasanaeth.

Crynodeb Arsylwi

Dylech gynnwys enw'r tyst arbenigol sydd yn arsylwi yn adran 8.

Dyddiad yr arsylwi: 13 Hydref 2017

I'w gwblhau gan y dysgwr

Nodwch yr amcanion gwaith cymdeithasol a rhowch ddisgrifiad bras o'r sefyllfa gan gynnwys y cyd-destun daearyddol a chyfreithiol ac unrhyw faterion perthnasol o ran diwylliant, ethnigrwydd ac iaith.

300 gair (+/- 10%: dylech gynnwys nifer y geiriau ar ddiwedd pob rhan)

Wrth gynnal yr arsylwad yma'r amcanion gwaith cymdeithasol a oedd gennyf mewn golwg oedd cyflawni darn o waith gydag unigolyn a oedd yn parchu dymuniadau a dyheadau'r unigolyn, ceisio cynnal ymddiriedaeth yr unigolyn mewn ffordd person canolog tra hefyd yn hyrwyddo cyfranogiad ag ymrwymiad yr unigolyn.

Yn ystod fy ymweliad cyntaf rhoddais ddewis iaith i'r unigolyn trwy'r "cynnig rhagweithiol" fel y nodir o dan y DLIGCC ac eglurais y byddwn yn cyfathrebu yn ei hiaith ddewisol. Mae ystyried anghenion dewis

iaith unigolion yn bwysig ar gyfer sefydlu a chynnal ymddiriedaeth unigolyn. (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2017, 10) Mae'r unigolyn yn uniaith Saesneg ac felly dyma'r iaith y byddaf yn defnyddio gyda hi. Mae hefyd yn byw mewn ardal drefol ddifreintiedig ble mae canran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Oherwydd nad yw wedi bod yn mynychu'r Ysgol mae sgiliau darllen ac ysgrifennu'r unigolyn yn isel, oherwydd ei bod yn byw mewn ardal ddifreintiedig ceir mynediad i wasanaethau megis Dechrau'n Deg, mae'r teulu hefyd yn profi tlodi.

Mae'r unigolyn yma'n ei harddegau, heb fynychu sefydliad addysg am rai blynyddoedd gan ei bod yn gwrthod mynychu'r ysgol. Roedd yn cael addysg gartref gan athrawes, nid oedd y sefyllfa yn symud ymlaen gan ei bod yn gwrthod cwblhau tasgau addysgol. Roeddwn wedi bod yn gweithio gyda'r unigolyn am flwyddyn, cymrodd hyn fisoedd i ddatblygu perthynas gan fod yr unigolyn yn wyladwrus o weithwyr cymdeithasol yn dilyn cyswllt gyda gweithiwr cymdeithasol o'r tîm amddiffyn plant rhai blynyddoedd yn gynharach. Dros gyfnod o 8 mis, llwyddais i ddatblygu perthynas gyda'r unigolyn, ble roedd yn teimlo'n ddigon cyfforddus i rannu ei dyheadau a theimladau gyda mi.

Daeth yn amlwg ei bod yn awyddus i drio profiadau newydd, ac yn diflasu bod adref trwy'r dydd. Llwyddais i drafod y sefyllfa gyda swyddog o'r adran addysg a chynigwyd y byddai'n bosib i'r unigolyn fynychu Uned mewn Ysgol Uwchradd leol am ychydig oriau'r wythnos, er mwyn trio integreiddio'r unigolyn i mewn i addysg yn araf bach. Dyma sail yr arsylwad yma.

Nifer Geiriau- 330

Dylech fyfyrto yn feirniadol ar eich dulliau a'ch sgiliau cyfathrebu yn ystod y gwaith arsylwi gan gynnwys sut y gwnaethoch nodi os oedd gennych y sgiliau cyfathrebu angenrheidiol i weithio gyda'r unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a gofawyr. Dangoswch sut y gwnaethoch llynu at y gwerthoedd gwaith cymdeithasol drwy ddefnyddio'r dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, Cod Ymarfer Proffesiynol Gweithwyr Gofal Cymdeithasol, ymarfer sy'n ddiwylliannol sensitif, dewis iaith gan gynnwys yr egwyddor 'Cynnig Rhagweithiol' ac ymarfer moesegol.

1300 gair (+/- 10%: dylech gynnwys nifer y geiriau ar ddiwedd pob rhan)

Cyn cynnal yr arsylwad roeddwn wedi gofyn caniatâd yr unigolyn ac wedi sicrhau ei bod yn hapus gydag hyn cyn trefnu dim. Roeddwn hefyd wedi egluro'r pwrpas ac wedi sicrhau ei bod yn gyfforddus gyda hyn. Cyn dechrau gofalais fy mod yn cadarnhau gyda hi ei bod yn hapus ac yn gyfforddus i barhau, cytunodd ei bod, felly fe ddechreuom gyda'r sesiwn. Oherwydd anhawster yr unigolyn gydag darllen ac ysgrifennu rhoddais ddewis iddi ysgrifennu/ cofnodi neu cynigais wneud iddi. Gofynnodd i mi ysgrifennu. Gan fy mod hefyd yn ymwybodol bod yn well gan yr unigolyn siarad â gwneud rhywbeth arall, felly roeddwn wedi gofalu fy mod gennyf bapur, pensiliau a beiros lliwiau gan ei bod yn mwynhau dylunio ac arlunio.

Crynois drafodaethau fy ymweliadau blaenorol gyda'r unigolyn, er mwyn sicrhau fy mod wedi deall ei dymuniadau a dyheadau ar gyfer y dyfodol yn gywir. Cytunodd bod y wybodaeth yr oedd wedi ei rannu yn gywir a'i bod dal yn teimlo bod ganddi fwy o ddiddordeb mewn dysgu am feysydd mwy creadigol, megis gofalu am anifeiliaid a chelf yn hytrach na chanolbwyntio ar gwricwlwm addysgiadol a dysgu am bynciau craidd fel mathemateg, gwyddoniaeth ac ieithoedd.

Roeddwn yn ymwybodol bellach bod yr unigolyn yn cael hi'n anodd siarad wyneb yn wyneb, roedd yn well ganddi siarad â gwneud rhywbeth e.e. mynd am dro, tynnu lluniau gyda chamera, darlunio ayyb. Oherwydd hyn roeddwn wedi gofalu fod gennyf bapur, pensiliau, pinnau ffelt a 'gel pens' fel ei bod yn bosib cael trafodaeth gyda hi, heb iddi deimlo'n lletchwith. Os yw gweithiwr proffesiynol yn cyfathrebu wrth wneud gweithgaredd o ddewis y person ifanc, mae'r person ifanc yn gweld y gweithiwr fel unigolyn sy'n gwybod sut i siarad gyda nhw ar eu lefel eu hunain. (Lefvere, 2010, 26) Unwaith y dechreuodd ddarlunio cawsom drafodaeth ynglŷn â beth oedd yn gwneud diwrnod da a diwrnod drwg i'r unigolyn. Roedd hyn yn ffordd o gael yr unigolyn i feddwl am yr hyn yr oedd yn bwysig iddi, heb gael ei dylanwadu gennyf i neu eraill mewn ffordd berson canolog. Roeddwn yn ymwybodol bod siarad am ysgol/ addysg yn anodd i'r unigolyn, ac yn y gorffennol roedd wedi gwrthod siarad gyda mi am hyn, ac felly roedd yn rhaid i fod yn wyladwrs wrth geisio symud ymlaen i drafod hyn. Roeddwn yn ymwybodol er mwyn gallu ceisio symud y sefyllfa ymlaen trwy weithio gyda'r unigolyn bod angen i mi barhau i gyflwyno Opsiynau posibl i'r unigolyn, mewn ffordd sensitif. Fe wnes hyn drwy geisio rhoi fy hun yn sefyllfa'r unigolyn, a meddwl am sut y buaswn i'n hoffi cael fy nhrin yn yr un sefyllfa. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer gweithio mewn ffordd berson canolog. (Community Care, 2014)

Roeddwn hefyd yn ymwybodol bod yr unigolyn yn teimlo'n ddi-bwer ar adegau, ac yn teimlo bod eraill yn gwneud penderfyniadau ynglŷn a hi, heb drafod gyda hi. Defnyddiais dechneg arall ar gyfer ei chynnwys mewn penderfyniadau a cheisio rhoi ychydig o bŵer yn ôl iddi, sef gofyn iddi sut yr oedd hi'n meddwl y byddai'n bosibl iddi gymryd rhan mewn rhai o'i diddordebau a datblygu sgiliau? Roeddwn wedi mynychu hyfforddiant ble roeddem wedi trafod ychydig ar dechnegau oedd yn ymwneud a cyfweld ysgogiadol, sy'n ddull person canolog cydweithiol ar gyfer ymchwilio cymhelliad unigolyn i newid, Mae'r pwyslais yn cael ei roi ar weithio mewn partneriaeth ac ar y cyd ac yn cyfeirio at gryfderau

a chyfyngiadau'r unigolyn. (Corcoran,2016,1) Roedd yr unigolyn yn ymateb yn well i'r math yma o drafodaeth ac roeddwn yn awyddus iddi deimlo bod ganddi reolaeth a'r gallu i wneud penderfyniadau ynglyn a'i anghenion lles.

Gofalais ei bod yn cael digon o amser i feddwl am syniadau, a fy mod ddim yn ei rhuthro. Os yw unigolion yn cael eu rhuthro yn aml maent yn teimlo nad ydynt yn bwysig, os ydych chi'n rhoi amser iddynt gan amlaf golyga hyn bod yr unigolyn yn fwy tebygol o gyfathrebu yn fwy clir ac yn gynt. (Koprowska, 2008,33) Doedd yr unigolyn methu meddwl am syniadau ac felly penderfynais drafod opsiynau gyda hi, byddai hyn hefyd yn rhoi'r cyfle i mi drafod yr opsiwn o fynychu uned addysgol. Roedd hyn hefyd yn rhoi'r cyfle i mi ailadrodd y wybodaeth unwaith eto er mwyn sicrhau fy mod wedi deall dymuniadau a dyheadau'r unigolyn. Roedd sicrhau bod yr unigolyn wedi deall pwrpas yr ymweliad a'i bod yn hapus i ateb y cwestiynau hefyd yn gyfrifoldeb arnaf er mwyn ceisio ymateb i'r anghydwysedd pwer sy'n gallu digwydd ar adegau rhwng gweithiwr cymdeithasol ag unigolyn. (Koprowska,2008,26)

Wrth ailadrodd y wybodaeth roeddwn wedi casglu, roedd yr unigolyn yn dal i ddylunio, fel yr oeddwn yn gofyn cwestiynau wrthi dechreuodd edrych arnaf fel yr oedd hi'n fy ateb. Mae datblygu cyswllt llygaid gydag unigolion wrth weithio gyda nhw hefyd yn bwysig er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol ac yn gwneud i unigolion deimlo'n gyfforddus. (Ross,2016,69) Roedd y ferch yn cael hi'n anodd cael cyswllt llygaid gyd-af pan nad oedd yn gallu ateb cwestiynau. Ond roedd adegau ble roedd gennym gyswllt llygaid da, ac yn ystod yr amseroedd yma roedd yr unigolyn yn cyfathrebu ei theimladau a'i dyheadau agored.

Roeddwn yn teimlo bod y cwestiynau roeddwn yn ofyn yn ffordd o gael yr unigolyn i adnabod y camau roedd hi angen cymryd er mwyn symud ei sefyllfa ymlaen. Y math o gwestiynau a ddefnyddiais oedd "How can we make sure that you get to do the things that you enjoy?", "What do you think would help you to do the things that you enjoy?" Roedd yr unigolyn yn cael hi'n anodd dod o hyd i atebion. Wrth adlewyrchu'n ôl ar fy ymarfer efallai y byddai wedi bod yn well petawn wedi defnyddio technegau therapi byr yn canolbwyntio ar ddatrysiad. Mae'r dull yma yn ddull 'change- orientated' sy'n galluogi unigolion i ddarganfod atebion eu hunain yn yr amser lleiaf posibl. (Ratner & Yusuf,2015,1) Trwy ofyn y cwestiynau uchod mae'n bosibl fy mod wedi rhoi pwysau ar yr unigolyn a bod hyn yn mynd i'w gwneud yn llai tebygol o allu datrys y sefyllfa ei hun. Trwy ofyn cwestiwn fel "What would you be doing instead of being at home?" e.e. Mae'n bosibl y buasai'r unigolyn wedi gallu disgrifio hyn ei hun, heb gymorth gennyf fi, byddai hyn wedi arwain iddi ddod i fyny gyda datrysiad ei hun. (Ratner & Yusuf, 2015,9)

Roeddwn hefyd wedi sicrhau fy mod yn defnyddio iaith y corff agored ag osgo llac er mwyn cyfleu neges bositif a dangos bod gennyf ddiddordeb gwirioneddol yn yr unigolyn. Byddai iaith y corff caeedig ac osgo anhyblyg gyda breichiau wedi croesi yn arwydd nad oeddwn yn gyfforddus ym mhresenoldeb yr unigolyn. (Ingleby,2006,27) Roeddwn eisiau sicrhau hefyd bod yr unigolyn yn teimlo'n gyfforddus yn fy nghwmni er mwyn sicrhau ei bod yn mynd i gyfathrebu a chyfrannu i'r sesiwn.

Rhywbeth arall roeddwn wedi ystyried wrth drefnu'r sesiwn, oedd amser y sesiwn. Roeddwn yn ymwybodol bod yr unigolyn yn ymateb yn well yn y prynhawn nag boreau felly roeddwn wedi sicrhau bod y sesiwn yn cael ei gynnal yn y prynhawn. Mae'n bwysig amseru'r sesiwn fel nad yw'n tarfu ar drefn/ amserlen y person ifanc. (Wosu & Tait, 2012, 28)

Roedd y lleoliad hefyd yn bwysig, gan fy mod eisiau trafod mater penodol gyda'r unigolyn heddiw, penderfynais ddefnyddio ystafell o fewn adeilad gwasanaeth egwyl fer. Roedd yr adeilad yn gartrefol, ac roedd hefyd yn ffordd o sicrhau cyfrinachedd gan ein bod yn ei ddefnyddio tu allan i oriau

gwasanaethau cefnogol. Buaswn wedi gallu defnyddio cartref yr unigolyn, ond oherwydd bod eraill yn y cartref fe fyddai wedi bod yn anodd i'r unigolyn ganolbwyntio. (Wosu & Tait, 2012, 29)

Rwy'n teimlo bod y sesiwn wedi mynd yn dda, gan fod yr unigolyn wedi gallu gwneud y penderfyniad ei hun ei bod eisiau ymweld ag uned addysgol, a'i bod yn barod i geisio ymchwilio i mewn i bosibiliadau addysgol. Roedd hyn yn gam mawr iddi, ac roeddwn yn falch iawn ohoni. Roedd hefyd yn gam mawr iddi gyfathrebu ei dymuniadau a dewisiadau gyda rhywun arall yn bresennol hefyd yn gam mawr. Rwy'n credu mai'r rheswm am hyn oedd am ei bod yn teimlo'n gyfforddus o fewn yr amgylchedd, ac ein bod wedi datblygu perthynas dda dros gyfnod o amser. Rwyf hefyd yn teimlo bod y darn yma o waith wedi dangos fy mod yn gallu Parchu barn a dymuniadau a hyrwyddo hawliau a diddordebau unigolion, trwy weithio mewn ffordd person canolog yn. Cefnogi unigolion i wneud penderfyniadau a chymryd rheolaeth o'u bywydau yn ogystal â sicrhau bod fy ngweithredoedd yn hyrwyddo cynhwysiad, amrywiaeth a chydaddoldeb. (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2017,9)

Nifer Geiriau- 1428

Adborth a sylwadau gan unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teulu neu ofalwyr

Ni ddylai y rhan yma o'r Arsyllu ddigwydd yng ngŵydd y dysgwr.

Gellid defnyddio rhai o'r cwestiynau yma gan yr arsyllwr (dylid eu haddasu gan ychwanegu esboniadau a phromptiau fel bo'r angen). Fel arall, gall y dysgwr lunio ei ddull ei hun o gael gwybodaeth i'r Arsyllwr ei ddefnyddio, os yw hyn yn fwy addas i anghenion yr unigolyn. Dylai'r arsyllwr gofnodi'r ymatebion isod neu drwy ddefnyddio'r dull arall gan yr unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaethau, eu teulu neu eu gofalwyr.

Cyn gofyn y cwestiynau rhaid i'r arsyllwr esbonio i'r unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaethau y bydd eu sylwadau yn cael eu rhannu gyda'r dysgwr. Gallai fod yn ddefnyddiol esbonio y bydd yn cael ei ddefnyddio fel offeryn dysgu i'r dysgwr ddatblygu ei ymarfer ei hun.

Os yw'r arsyllwr ddim yn gallu cael adborth, dylid dweud yn fras pam.

Oedd y gweithiwr cymdeithasol ar amser? Os oedd oedi wnaeth ef/hi gysylltu â chi?	Yes she is usually on time but if she is going to be late she will telephone me.
A wnaeth y gweithiwr cymdeithasol gael eich caniatâd i'r arsyllwr fod yn bresennol? A wnaethon nhw esbonio pam eu bod yn cael eu harsyllu?	Yes she did explain what would be happening and if that was ok with me. She said it was to look at her work not me.
Oeddech chi yn glir pam fod y gweithiwr cymdeithasol wedi eich cyfarfod heddiw?	Yes I know what we were going to be doing today and we also talked about it on the way here.
Yn eich barn chi, pa mor dda oedd y gweithiwr cymdeithasol wedi paratoi ar gyfer y cyfarfod gyda chi?	She was prepared for our session today because she had the art stuff with her. Some sessions are different and we will go out for a walk to talk about things.
Ydy'r gweithiwr cymdeithasol wedi gwrando arnoch chi gan barchu eich barn a'ch dymuniadau?	Yes she does and this is really important to me
A wnaeth y gweithiwr cymdeithasol siarad gyda chi mewn ffordd yr oeddech yn ei ddeall?	Yes I understand what she says to me and I know the words she uses

Oeddech chi'n deall yr iaith y gwnaethant ei defnyddio?	
---	--

Sut mae rhan y gweithiwr cymdeithasol wedi cwrdd gyda'ch disgwyliadau o'r ymweliad?	Today has been different to what I expected but in a good way.
A oes unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill yr hoffech eu gwneud?	I like it when we are able to go out and do something

Adran 4

Diogelu a gweithio mewn sefyllfaoedd cymhleth - Astudiaeth Achos

Cwblhewch astudiaeth achos adfyfyrion a beirniadol ar sail asesiad a wnaed gydag eraill (yn eich maes gwaith chi) sy'n ymwneud â diogelu un ai oedolyn neu blentyn. Dangoswch sut mae'r achos yn berthnasol i ddeddfwriaeth diogelu a pholisïau, strategaethau a gweithdrefnau diogelu eich Bwrdd Diogelu. Sicrhewch eich bod yn cynnwys y canlyniadau dysgu, Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, deddfwriaeth (domestig a rhyngwladol), agweddau penodol gweithio yng Nghymru a theorïau gwaith cymdeithasol perthnasol. Fe welwch restr o'r canlyniadau dysgu yn y llawlyfr.

4000 gair (+/- 10%: dylech gynnwys nifer y geiriau ar ddiwedd pob rhan)

Ar gyfer y darn yma o waith byddaf yn defnyddio model adlewyrchu 'The Big 6' i fyfyrion yn feirniadol ar fy achos diogelu plentyn. Mae'r model yma'n cynnwys bod yn ymwybodol o bŵer, gwerthoedd, emosiynau, gwybodaeth, hunanymwybyddiaeth ac ansicrwydd. (Maclean, 2016)

Rwy'n weithiwr cymdeithasol oddi mewn i dîm plant ag anabledd dysgu neu anabledd corfforol yr awdurdod lleol. Rwyf wedi dewis achos sy'n ymwneud a bachgen ifanc gydag anabledd dysgu a chyflwr niwrolegol. Mae'r bachgen yn byw mewn cymuned wledig ac wedi symud yno o ardal drefol nid oes gan y bachgen iaith ond Saesneg yw prif iaith y teulu ac mae'r bachgen yn deall Saesneg. Mae'n byw gyda'i fam a'i chwaer. Roedd dewis iaith y bachgen a'r teulu wedi cael ei nodi ar gyfeiriad cychwynnol y bachgen. Mae rhoi dewis iaith i unigolyn trwy'r cynnig rhagweithiol yn hanfodol o fewn DLIGCC 2014 a hefyd yn rhan hanfodol o fframwaith Mwy na Geiriau, *er mwyn darparu gwasanaeth hygyrch a sensitif a sicrhau bod unigolion yn gallu mynegi eu hunain, sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei drosglwyddo'n effeithiol*. (Llywodraeth Cymru, 2012, 11) Gweler hefyd y cod ymarfer proffesiynol ar gyfer Gofal cymdeithasol sy'n nodi bod rhoi dewis iaith yn ffordd o barchu dymuniadau unigolion gan eu galluogi i ddefnyddio eu hiaith ddewisol sy'n hyrwyddo cynhwysiad. (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2017, 9)

Nid yw DLIGCC 2014 yn delio gydag achosion amddiffyn plant a gweithdrefnau Llys ac felly mae'r rhain yn parhau i ddod o dan Ddeddf Plant 1989 yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn cynnwys y newidiadau a waned o ganlyniad i Ddeddf Teuluoedd a Phlant 2014 yng Nghymru, sy'n cynnwys plant a phobl ifanc gydag anghenion ychwanegol/ anableddau o ran addysg a gwasanaethau Cymdeithasol (Llywodraeth Cenedlaethol, 2014, 5). Mae rhan V o Ddeddf Plant 1989, sef amddiffyn plant gan gynnwys ymholiadau Adran 47- y ddyletswydd i ymchwilio niwed sylweddol hefyd yn parhau. O dan Adran 7 o DLIGCC yn gosod dyletswydd newydd yng Nghymru, sef y ddyletswydd i adrodd fod plentyn mewn risg. (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2017, 2)

Roeddem fel adran wedi derbyn sawl honiad o gamdriniaeth gan aelod o'r teulu estynedig mewn amser prin, roedd hyn yn batrwm am sawl blwyddyn. Cafodd honiad amddiffyn plant anhysbys ei wneud i'r adran, yn adrodd fod gan y bachgen lygad ddu, o ganlyniad i'w fam yn taflu 'remote control' ato. Oherwydd natur yr honiad cysylltais gyda'r Ysgol ar gyfer gwneud ymholiadau pellach, cyn penderfynu beth fyddai'r camau nesaf. Gan fod y plentyn yn adnabyddus i'r adran ac roedd gwybodaeth sylweddol ar gael yn barod roedd casglu mwy o wybodaeth yn cael ei gyfrif fel yr asesiad cychwynnol. (Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, 2008, 55) Mae plant ag anableddau yn fwy tebygol o gael eu cam-drin nag plant heb anableddau. Grwpiau eraill o blant sydd hefyd yn fwy tebygol o gael eu cam-drin yn blant gydag anawsterau iaith a lleferydd/ cyfathrebu. Mae plant ag anableddau yn fwy

tebygol o gael eu cam drin gan rywun o fewn y teulu o'u cymharu â phlant heb anableddau. (Miller& Brown, 2014,8) Mae Erthygl 8 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn nodi fod gan deuluoedd yr hawl i fyw bywyd teuluol preifat a bod angen i awdurdodau cyhoeddus barchu hyn, oni bai bod hyn yn rhoi'r unigolyn neu eraill mewn perygl. Oherwydd natur yr honiad yma roedd yn rhaid ymchwilio ymhellach er mwyn sicrhau diogelwch a lles y bachgen.

Yn dilyn sgwrs gydag aelod o'r staff yn yr Ysgol, cadarnhawyd nad oedd gan y bachgen lygaid du ond roedd ganddo friw o dan ei lygaid ac roedd ychydig o chwydd yno. Yn dilyn trafodaeth gyda'n rheolwr llinell a gweithwyr eraill perthnasol o fewn yr adran penderfynwyd bod angen gwneud cyfeiriad at Uned Amddiffyn y Cyhoedd. Cafwyd trafodaeth strategol gyda'r Heddlu a gwnaed penderfyniad yn syth y byddai angen cwblhau asesiad adran 47 ar y cyd gyda'r Heddlu, gan fod gan y bachgen anaf heb eglurhad, ac roedd angen i'r Heddlu gasglu tystiolaeth er mwyn penderfynu os oedd trosedd wedi ei gyflawni. Er mwyn sicrhau diogelwch y bachgen penderfynodd yr Heddlu bod angen i'r asesiad adran 47 gael ei gynnal y prynhawn hwnnw. Er ei fod yn ymarfer da i hysbysu rhieni cyn cyfweld plentyn, oherwydd natur yr honiadau a'r posibilrwydd y byddai hyn yn rhoi'r plant mewn perygl penderfynwyd ar y cyd gyda'r Heddlu a'n rheolwr llinell y byddai'n well cynnal yr ymweliad cartref heb hysbysu'r rhiant.. (Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, 2008,55) Mae Deddf Plant 1989 hefyd yn nodi mai lles y plentyn sydd bennaf.

Wrth gyrraedd y cartref, roedd mam y bachgen ar ei ffordd allan gyda'r bachgen. Roedd hyn yn broblemus gan ein bod angen siarad gyda hi. Roeddwn hefyd yn ymwybodol bod ymchwiliad adran 47 angen cael ei gynnal mewn ffordd sy'n lleihau trallod i'r plentyn a sicrhau bod teuluoedd yn cael eu trin gyda pharch ac mewn ffordd sensitif. (Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan,2008,74) Roeddwn yn teimlo bod trafod y sefyllfa yn y stryd gyda'r fam yn mynd yn erbyn hyn. Roeddwn hefyd yn bryderus am gyfrinachedd gan ei bod allan yn y stryd, ac nid oeddwn eisiau i'r cymdogion glywed unrhyw wybodaeth gyfrinachol gan nad oedd hyn yn deg nag yn briodol. Fel gweithiwr cymdeithasol mae'n angenrheidiol gweithredu gyda gonestrwydd a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd o'r proffesiwn gofal cymdeithasol trwy mewn amryw o ffyrdd, mae parchu cyfrinachedd a gwybodaeth gyfrinachol yn hanfodol. (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2017,10) Nid oeddwn yn hapus gyda'r ffordd y bu i ni roi'r wybodaeth iddi, ond o dan yr amgylchiadau nid oedd gennym fawr o ddewis. Eglurais wrth yn ddistaw wrthi'r rheswm ein bod yno, a'n bod angen siarad gyda hi a gweld y bachgen.

Oherwydd natur yr ymweliad a bod yr heddlu gyda mi, daeth hi'n emosiynol ac yn 'confrontational' wrth wrthod mynd yn ôl i'r tŷ am ei bod angen nôl ei merch o'r Ysgol, oedd rhai milltiroedd i ffwrdd o'r cartref. Yna bu iddi yrru i ffwrdd heb i ni allu gwneud trefniadau gyda hi. Roeddem wedi gweld bod y bachgen yn hapus yng nghwmni ei fam yn yr amser yr oeddem wedi gallu siarad gyda'r fam. Roeddwn i hefyd yn gyfarwydd gyda'r teulu ac yn ymwybodol o'r sefyllfa gyda'r teulu tadol, a bod nifer o gyhuddiadau yn cael eu gwneud yn erbyn y fam. Gan nad oeddem yn gallu cysylltu gyda'r fam yn dilyn hi'n gadael y cyfeiriad, roedd gennym ddilema ac roedd angen i ni wneud penderfyniad proffesiynol ynglŷn â'r cam nesaf. (Owen & Hughes, 2009, 58) Gan fod y plentyn yn hapus yng nghwmni ei fam, ein bod ddim yn gwybod faint o'r gloch y byddai'n dychwelyd ac o'm mhrofiad ohoni fel rhiant a'r wybodaeth ynglŷn â'r teulu tadol, gwnaeth yr Heddlu'r penderfyniad y byddai'n well i ni ddychwelyd i'r orsaf heddlu ac y byddai'r swyddog yn cael arweiniad gan ei rheolwr hi ynglŷn â'r camau nesaf. Wrth adlewyrchu ar hyn rwy'n teimlo y byddai gadael i'r fam wybod ein bod angen ymweld â hi a'r plant y prynhawn hwnnw wedi bod yn well, fe fyddai o bosib wedi lleihau'r sefyllfa o wrthdaro. Mae gweithio gyda gweithiwr cymdeithasol amddiffyn plant yn anodd ac yn achosi straen a phoen meddwl i nifer o rieni (Buckley et al, 2011, 101) hyd yn oed os nad oes camau pellach yn cael eu Cymryd. (Davies,2011,201).

Roedd yr Heddlu yn anhapus gydag ymateb y fam, ac yn teimlo ei bod wedi gor-ymateb. O adnabod y fam a cheisio rhoi fy hun yn ei sefyllfa hi, rwy'n gallu deal pam ei bod hi wedi ymateb fel y gwnaeth. Roedd hyn yn rhannol oherwydd fy ngwerthoedd, a fy mod o hyd yn ceisio rhoi fy hun yn sefyllfa'r unigolion rwy'n gweithio gyda. Rwyf hefyd yn ymwybodol fy mod i fel gweithiwr cymdeithasol yn gallu rhoi'r argraff i unigolion fy mod yn bwerus, ac mae hyn yn gallu arwain at densiynau gydag unigolion ar adegau. Rwy'n teimlo ei bod yn bwysig cael mewnwelediad i hyn, ac roeddwn yn teimlo ei fod yn bwysig rhannu hyn gyda'r Heddlu, gan eu bod hwythau yn unigolion gyda phwerau health, ac mae hyn yn gallu bod yn brofiad anodd iawn i unigolyn pan mae gweithiwr cymdeithasol a'r heddlu yn ymweld yn ddi-rybydd. Nid yw'n brofiad braf, ac nid yw pob unigolyn yn mynd i ymateb yr un ffordd. (Beckett, 41,2007) Nid wyf yn cytuno gyda'r ffordd y bu iddi ymateb, ond mae gennyf empathi tuag at y sefyllfa y bu iddi ddarganfod ei hun ynddi. Gall ymyrraeth gwaith cymdeithasol achosi digwyddiad argyfwng heb i'r gweithiwr cymdeithasol fod yn ymwybodol o hyn. Mae'n bosib na fydd gweithiwr cymdeithasol, sy'n cynnal ymchwiliad amddiffyn plant, byth yn ymwybodol o'r math o ddinistr sy'n cael ei adael o fewn teulu yn dilyn archwiliad, hyd yn oed mewn achosion pan ddarganfyddir nad yw'r plentyn mewn perygl o gamdriniaeth. (Beckett, 2010,110)

Petai dim gwybodaeth sylweddol ynglyn a'r plentyn ar gael yn barod, a'n bod yn wirioneddol bryderus am ddiogelwch y bachgen a'i chwaer, fe fyddai wedi bod yn bosibl i ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf Plant 1989. Os oes tystiolaeth fod plentyn yn dioddef niwed arwyddocaol neu yn debygol o ddioddef niwed arwyddocaol gellir defnyddio mesurau gorfodol a olygir bod rhaid i deuluoedd dderbyn cefnogaeth gan wasanaethau neu sy'n rhoi pwerau i gymryd y plant mewn i ofal. (Deddf Plant 1989, A31(2) Os nad oes tystiolaeth bod niwed sylweddol i'r plentyn mae'n rhaid defnyddio'r egwyddor o ymyrraeth leiafrifol. Mae hyn er mwyn ceisio sicrhau bod teuluoedd yn cyd-weithio gyda gwasanaethau (Masson et al, 2007,6) O dan adran 44 o Deddf Plant 1989 gall unrhyw un wneud cais i'r llys am Orchymyn Amddiffyn Brys, mewn gwir argyfwng ble mae angen amddiffyn y plentyn, pan nad yw rhieni yn cytuno i'r plentyn fynd i ofal. Yn ogystal â hyn gall yr Heddlu o dan Adran 46 (1) o Ddeddf Plant;

Where a constable has reasonable cause to believe that a child would otherwise be likely to suffer significant harm, he may—

.(a) remove the child to suitable accommodation and keep him there; or

.(b) take such steps as are reasonable to ensure that the child's removal from any hospital, or other place, in which he is then being accommodated is prevented.

Bu i ni drefnu gweld y bachgen a'i chwaer yn yr ysgol y prynhawn canlynol er mwyn ceisio casglu tystiolaeth bellach a sicrhau diogelwch y plant. Mae hyn yn cael ei nodi o fewn Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008,91). Mae Erthygl 19 o Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r plentyn 1989 hefyd yn nodi fod gan bob plentyn yr hawl i gael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth. (UNICEF,DD,7) Roedd chwaer y bachgen yn gallu siarad, ac roedd y cyfeiriad wedi nodi ei bod hi yn bresennol yn ystod y digwyddiad, felly gwnaed y penderfyniad i'w chyfweld hi yn yr Ysgol cyn mynd i weld y bachgen. Roedd yn debygol y byddai hi'n gallu cadarnhau sut yr oedd y bachgen wedi derbyn yr anaf. Eglurais wrthi pan ein bod wedi dod i'w gweld, a sicrhau ei bod yn hapus i siarad gyda ni. Mynegodd hefyd o dan y cynnig gweithredol ei bod eisiau cyfathrebu yn y Gymraeg. Eglurais wrthi am gyfrinachedd, ac efallai y byddai'n rhaid i ni rannu'r wybodaeth yr oedd yn ei rannu gydag eraill os yr oedd yn meddwl ei bod yn cael ei roi mewn perygl neu fod eraill mewn perygl. Roedd yn bwysig bod yn agored ag onest gyda'r ferch.

Ar gyfer y drafodaeth chwaer y bachgen roeddwn wedi addasu cwestiynau'r asesiad o flaen llaw ar gyfer casglu gwybodaeth ganddi mewn ffordd addas oedd yn ymateb i'w anghenion. Roeddwn hefyd wedi paratoi taflenni dwyieithog gyda lluniau gweledol wedi ei symleiddio - Diwrnod da, diwrnod drwg, beth sy'n 'neud fi'n hapus? Beth sy'n 'neud fi'n drist? Rhoddais y cyfle iddi gwblhau'r taflenni ei hun

hefyd, mynegodd ei bod yn well ganddi ysgrifennu ar y taflenni, bu i mi sicrhau nad oeddem yn ei rhuthro ac yn rhoi digon o amser iddi wneud hyn. Gwelais ei fod yn cael hi'n anodd ysgrifennu rhai geiriau ar adegau felly gwnes yn siŵr fy mod yn cynnig cefnogaeth iddo pan yn briodol. Roeddwn hefyd yn ymateb mewn ffordd sensitif a 'calm' a ddim yn beirniadu. Mae'n bwysig bod unrhyw drafodaeth gyda phlentyn yn cael ei gynnal mewn ffordd sy'n lleihau trallod ac yn ceisio sicrhau bod y plentyn yn mynd i roi cyfrif clir a cywir o'r digwyddiad. (Brayne & Carr, 2009,193)

Oherwydd bod angen i'r Heddlu gasglu gwybodaeth benodol ar gyfer yr ymchwiliad roedd yn rhaid i'r swyddog ofyn cwestiynau penodol i'r plentyn. Roedd hyn yn fwy ffurfiol, ond roedd y ferch wedi cadarnhau ei bod yn hapus a cyfforddus i ateb unrhyw gwestiynau. Dechreuodd yr Heddlu gyda chwestiwn ar gyfer adnabod os oedd y ferch yn gallu dweud y gwahaniaeth rhwng gwir a chelwydd. Mae hyn yn rhywbeth mae'r heddlu yn ei ddefnyddio wrth gyfwrdd plant gan eu bod angen cadarnhau bod y plentyn yn gallu gwahaniaethu rhwng gwir a chelwydd ar gyfer sicrhau bod y dystiolaeth maent yn casglu yn gallu cael ei ddefnyddio yn y Llys os oes trosedd wedi ei gyflawni. (Heddlu Gogledd Cymru, 2015)

Cadarnhawyd gyda chyfrif y ferch mai damwain oedd briw'r bachgen, a'u bod wedi bod yn chwarae gyda'i gilydd pan fu iddo daro ei wyneb yn erbyn cegin chwarae plant.

Gan nad oes gan y bachgen iaith roedd yn rhaid addasu'r ffordd yr oeddem yn cyfathrebu gydag ef. Mae angen i weithiwr cymdeithasol ddefnyddio ystod eang o ddulliau ac adnoddau megis cyffyrddiad, chwarae, arwyddo, arsylwi iaith y corf, ysgrifennu, tynnu lluniau, gweithgareddau, symbolau ayyb. (Morrison,2016,4) Roedd y bachgen yn defnyddio system PECS (lluniau) ar gyfer cyfathrebu ei anghenion. Mae'n gyfarwydd iawn gyda'r system yma bellach ac yn gallu mynegi ei ddymuniadau gyda'r dull yma. Oherwydd natur yr ymweliad, roedd yn anodd cyfathrebu gyda'r bachgen hyd yn oed gyda'r system PECS. Mae'r dull yma o gyfathrebu yn ddibynnol ar gael y cardiau cywir ar gyfer y plentyn fel ei bod yn gallu cyfathrebu eu teimladau a dymuniadau. (National Autistic Society,2014,27) Bu i mi eistedd ar y llawr gyda'r bachgen a dangos diddordeb yn yr hyn yr oedd yn ei wneud, a gadael iddo arwain ar y sesiwn. Sicrhodd hyn bod rhyngweithiad rhyngom, ac roedd y bachgen yn gyfforddus yn fy nghwmni. Cafodd yr ymchwiliad ei gynnal rhwng 2006-2008 a'i gyhoeddi yn 2010 sy'n cadarnhau bod y math yma o ymyrraeth gyda phlant sydd ag anawsterau cyfathrebu yn effeithiol ar gyfer cynyddu rhyngweithiad rhwng y plentyn ag oedolyn/ rhiant drwy chwarae.(Psychiatry Research Group, 2010,2154)

Children might not interact with their parents at all, but when eventually a child did offer a toy or made a noise that could be interpreted as a request, the incident was rerun on video and the parent encouraged to respond. If the child offered a toy, the parent reciprocated. If the child said a word, the parent repeated it and added something.(The Guardian, 2016)

Ond oherwydd nad oedd yn gennym y modd i drafod emosiynau o fewn y system PECS, roedd hi'n anodd trafod y digwyddiad gydag ef. Mae ymchwiliad yn ymddangos bod dilyn y patrwm yma o ryngweithio gyda phlentyn yn effeithiol. Roedd hyn yn un gwendid o'r broses a'r darn o waith, gan nad oedd hi'n bosibl i'r bachgen adrodd yr hyn oedd wedi digwydd. Oherwydd hyn bu i ni gael trafodaeth gyda'r athrawes dosbarth a'r cymhorthydd, gan eu bod yn adnabod y bachgen yn dda ac yn mynd i allu adrodd os oedd unrhyw newid yng nghyflwyniad y plentyn ers y digwyddiad. Cafwyd cadarnhad nad oedd unrhyw newid mewn unrhyw agwedd o ymddygiad a chyflwyniad y bachgen. Eglurodd ei athrawes dosbarth nad oedd wedi sylweddoli fod ganddo friw nes fy mod wedi gofyn iddi edrych yn ystod yr asesiad cychwynnol.

Bu i ni lwyddo i drafod y digwyddiad gyda'r fam yr un diwrnod, ac erbyn hyn roedd hi'n fwy parod i siarad, ac roedd ei ymateb yn briodol. Roedd yr Heddlu wedi mynegi ei bod yn mynd i fynegi bod

ymateb y fam y diwrnod blaenorol yn annerbyniol. Eglurais wrthi fy mod yn teimlo y byddai'n well gwneud hyn ar ddiwedd y cyfarfod, oherwydd mae'n bosib y byddai hyn wedi effeithio'n negyddol ar y sgwrs. Roeddwn i hefyd yn anhapus gyda'i ymateb, ond o'i adnabod a gydag ymwybyddiaeth o'i gofal o'i mab roedd gennyf ddealltwriaeth bod hyn wedi bod yn anodd iddi, roeddwn yn teimlo ei bod yn bwysig peidio gadael fy nheimpladau i a'n emosiynau i amharu yn negyddol ar yr ymweliad. Roeddwn yn ymwybodol bod rhaid i mi barhau i weithio gyda'r fam yn dilyn yr ymweliad yma, yn wahanol i'r Heddlu, ac felly roedd angen ymateb mewn ffordd sensitif, onest a priodol, fel y gwelir o dan rôl allweddol 2 Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol. Roeddwn eisiau iddi hi deimlo ei bod yn gallu siarad gyda mi, ag bod yn agored gyda fi, gan y byddai hyn yn hanfodol ar gyfer sicrhau bod y bachgen yn derbyn cefnogaeth briodol, a bod hi fel ei riant/gofalwr yn derbyn cefnogaeth gan fod Adran 40 o DLIGCC 2014 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i sicrhau bod gofalwyr yn cael asesiad gofalwyr os yw'n ymddangos bod ganddynt anghenion cefnogaeth a gofal.

Roedd ei chyfrif hi o'r digwyddiad yn gyd fynd gyda chyfrif ei merch, gan fod y ddau gyfrif yn cyd-fynd, ag yn cadarnhau mai damwain oedd briw'r bachgen, nid oedd tystiolaeth bod trosedd wedi cymryd lle. Roedd yr Ysgol hefyd wedi cadarnhau bod y bachgen yn hapus, a ddim wedi rhoi unrhyw reswm iddynt bryderu ei fod yn cael ei gam-drin adref gan ei fam. Gan fy mod ym ymateb i mewn sefyllfa o argyfwng, oherwydd yr honiad, fel rhan rhan o ymyrraeth grisis mae angen dealltwriaeth o effaith digwyddiad ond mae hefyd angen dealltwriaeth glir o'r digwyddiad ei hun a'r effaith o hyn ar yr unigolyn a'r teulu. Os nad yw hyn yn digwydd, nid oes modd o gefnogi'r teulu drwy'r cyfnod yn effeithiol. Bellach roedd gennym ddealltwriaeth well o'r sefyllfa, ac fe fyddai hyn yn gymorth imi ar gyfer cefnogi'r bachgen a'i deulu trwy'r cyfnod anodd yma. (Beckett, 2010,110) O ganlyniad i hyn penderfynodd yr Heddlu na fyddent yn cymryd camau pellach. Yn dilyn trafodaeth gyda'n rheolwr llinell a rheolwr tîm amddiffyn plant gwnaed y penderfyniad na fyddai'r adran yn cymryd camau pellach. Pe byddai ymchwiliad adran 47 wedi canfod bod briw'r bachgen wedi ei achosi'n fwriadol gan ei fam, fe fyddai asesiad craidd wedi cael ei gychwyn ac fe all hyn fod wedi arwain at gynhadledd achos, ble byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud ynglyn a rhoi enw'r bachgen ar y gofrestr amddiffyn plant ai peidio. (Byrddau Lleol Diogelu Cymru Gyfan,92,2008) Pe byddai enw'r bachgen wedi cael ei roi ar y rhestr amddiffyn plant fe fyddai angen cynnal grŵp craidd cychwynnol o fewn 10 diwrnod i'r gynhadledd achos cychwynnol. Yn dilyn hyn byddai angen cynnal y grwpiau craidd yn fisol er mwyn monitro ac adolygu'r cynnydd mewn perthynas â'r cynllun amddiffyn plentyn.

O dan Adran 6 o DLIGCC 2014 pan mae plentyn ar y gofrestr amddiffyn neu os oes gan y plentyn anghenion llesiant mae'n rhaid creu cynllun gofal o dan adran 4 o'r ddeddf, mae'r cynllun amddiffyn yn cael ei greu yn ystod y gynhadledd achos cyntaf. (Byrddau Lleol Diogelu Cymru,2008,111) Gan fod y plentyn yn adnabyddus i'r gwasaneth yn barod roedd ganddo gynllun gofal, ac felly roedd gennyf ddealltwriaeth o anghenion llesiant y bachgen a'i deulu, ac roedd camau wedi eu nodi ar gyfer cefnogi'r bachgen a'i deulu i gyflawni'r deilliannau ar gyfer ymateb i'r anghenion llesiant. Mae'r Asesiad anghenion gofal a chefnogaeth a'r cynllun gofal a chefnogaeth yn ddull cydweithredol o weithio gydag unigolion ac yn ffordd o ganolbwyntio ar gryfderau unigolion a'u teuluoedd er mwyn datblygu eu sgiliau yn y meysydd yma. Un o brif amcanion DLIGCC 2014 yw rhoi llais a rheolaeth i unigolion a'u rhoi hwythau a'u hanghenion yn ganolog i'w gofal a chefnogaeth. (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2016,6)

Pan yn gweithio gyda unrhyw achos yn ymwneud a plant mae'n bwysig ymateb i anghenion y plentyn ac ymarfer mewn ffordd sy'n hyrwyddo lles y plentyn. Gall hi fod yn anodd cael cydbwysedd rhwng anghenion y rhieni ag anghenion y plentyn fel y gwelir gydag achos Gilick yn 1985 yn dilyn anghydfod rhiant gyda phenderfyniad meddyg i ragnodi meddyginiaeth atal cenhedlu i bobl ifanc o dan 16 oed heb fod angen caniatâd rhiant. Yn dilyn yr achos yma gweler bod hawliau'r rhiant yn ildio i hawliau'r plentyn pan fo'r plentyn yn dangos fod ganddo ddeallusrwydd digonol a'r gallu i fod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ei hun ar unrhyw fater lle ceir angen am benderfyniad. (Gilick v West Norfolk &

Wisbech Area Health Authority [1985] UKHL 7 (17 October 1985) Achos arall ble gwelir diffyg ystyriaeth i hawliau a lles plant yw achos Cleveland yn 1987. Bu i 121 o blant ddod i mewn i ofal yn dilyn diagnosis o gamdriniaeth rywiol o ganlyniad i ddefnyddio tystiolaeth feddygol ddadleuol. Yn dilyn yr ymchwiliad daeth yn amlwg nad oedd gweithwyr wedi trafod y sefyllfa gyda'r plant er mwyn casglu tystiolaeth/ gwybodaeth a bod rhieni heb gael cyfle i herio'r diagnosis. O ganlyniad i hyn beirniadwyd y gweithwyr cymdeithasol am fod yn or-ddibynol o'r dystiolaeth. Nid yw hyn o hyd yn bosibl gyda plentyn ifanc yn enwedig mew nachos fel yr achos yma oherwydd diffyg iaith llafar a'r cyfyngiad ar ddulliau cyfathrebu'r bachgen. Gwelir bod angen rhoi ystyriaeth i farn y plentyn yn unol ag oedran ac aeddfedrwydd y plentyn mewn unrhyw broses cyfreithiol a gweinyddol unai gan y plentyn ei hun neu trwy unigolyn/ asiantaeth briodol. Mae hefyd angen parchu dymuniadau plant i gyfathrebu mewn ffurf o'u dewis ag yn aml iawn mae'r rhain yn wahanol i ffurf oedolion. (CCUHP Erthygl 12 a 13)

Yn dilyn yr ymweliad gyda'r Heddlu, daeth y amlwg fod perthynas rhwng mam a thad y bachgen wedi gwaethygu ac roedd hi'n ofni mwy o gyhuddiadau ac yn ofni beth fyddai'n digwydd petai mwy o honiadau'n cael eu gwneud. Roeddwn eisiau iddi hi adnabod yr atebion ei hun, gan y byddai yn fwy tebygol o ddilyn syniadau ei hun nag rhai yr oedd yn cael ei gorfodi arni. Mae hefyd yn wahanol i theorïau eglurhad gan fod y pwyslais yn cael ei roi ar gydweithredu gydag unigolion ac ail-adeiladu eu syniadau mewn ffyrdd sy'n ddefnyddiol iddyn nhw. (Beckett,2010,74) Roedd defnyddio'r dull therapi byr yn canolbwyntio ar ddatrysiad yn ffordd o sicrhau hyn. Mae DLIGCC (2014) hefyd wedi ei selio ar y ffordd yma o weithio. Mae'r Ddeddf yn symud i ffwrdd o'r dulliau sy'n canolbwyntio ar broblemau. Mae hyn hefyd yn ffordd o roi rheolaeth yn ôl i unigolion, a'u grymuso i gymryd cyfrifoldeb a darganfod atebion i'w sefyllfa. (Gofal Cymdeithasol Cymru,2017) Oherwydd bod angen cydweithredu gydag unigolion mae hefyd yn rhoi pŵer yn ôl i'r unigolyn.

Yn dilyn adlewyrchu ar y darn yma o waith, rwyf wedi adnabod ei bod ar adegau yn anodd sicrhau cael cydbwysedd rhwng llais y plentyn a'r rhiant a gweithio mewn ffordd berson canolog. Yn amlwg mae hyn yn ddibynnol ar natur y gwaith ag anghenion yn blentyn. Yn dilyn hyn rwyf wedi darganfod adnodd i hybu sefydliadau i weithio mewn ffordd berson canolog. Mae'r adnodd wedi ei gynllunio ar gyfer ysgolion a cholegau ar gyfer ceisio darparu cefnogaeth holistig ag effeithiol i blant a phobl ifanc a cheisio sicrhau fod ganddynt ddewis a rheolaeth mewn penderfyniadau. (Llywodraeth Cymru, 2015,5) Mae hyn yn rhywbeth rwyf wedi ei ddefnyddio ar gyfer ceisio adnabod sut i wella fy ymarfer a sicrhau fy mod yn gweithio mewn ffordd sy'n hybu rhoi'r unigolyn yn ganolog i bopeth rwy'n wneud gan gynnwys sgysiau gyda rhieni ac unrhyw un sy'n gweithio gyda'r unigolyn ar gyfer gwella canlyniadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn rôl allweddol 5 o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol.

Rhywbeth allweddol ar gyfer y darn yma o waith oedd hunan- ymwybyddiaeth. Roedd hyn yn hanfodol ar gyfer gweithio gyda'r bachgen, y fam a'r ferch. Mae'n hunan- ymwybyddiaeth yn effeithio'n sylweddol ar y berthynas rhwng bob aelod o'r teulu yn yr achos yma. Mae'r ffordd yr oeddwn i'n uniaethu gyda'r fam er enghraifft yn mynd i lywio'r rhyngweithiad rhyngom i fod yn bositif neud negyddol.(Hennessey,2011,2) Pe byddwn i wedi bod yn negyddol ac yn feirniadol, mae'n debyg y byddai hyn wedi arwain at wrthdaro. Trwy fod yn ymwybodol o'r ffordd yr oeddwn i'n ymddwyn roedd yn bosibl i mi addasu hyn yn ystod yr ymweliad. Mae theori dadansoddiad rhyngweithiol yn adnabod bod 3 ffurf i'r hunan sef, plentyn, rhiant ag oedolyn. Gellir wedyn rhannu'r hunan plentyn i mewn i 3 math, a'r rhiant i mewn i ddau fath. Pe byddwn i wedi ymddwyn fel rhiant beirniadol mae'n debyg y byddai hyn wedi arwain i'r fam ymddwyn yn ôl fel rhiant beirniadol a fyddai wedi arwain at wrthdaro. Mae hefyd yn bosibl y byddai wedi ymddwyn fel plentyn gwrthryfelgar a fyddai eto wedi arwain at sefyllfa o wrthdaro. Er mwyn gallu rhyngweithio gyda hi mewn ffordd bositif, roedd angen i mi ymddwyn fel oedolyn. Byddai hi wedyn yn fwy tueddol o adlewyrchu fy ymddygiad i. (White, 2011 31-2) Roedd hyn yn ffordd o geisio sicrhau bod yr ymweliad am fod yn adeiladol.

Ar gyfer gallu sicrhau diogelwch unigolion mae'n hanfodol fy mod yn gofalu bod gennyf wybodaeth gyfredol, fy mod yn gyfarwydd gyda phwerau cyfreithiol a statudol a gellir defnyddio ar gyfer gwarchod unigolion, ddealltwriaeth o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol sy'n rhaid i weithwyr cymdeithasol eu dilyn. (Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, DD,4), deddfwriaeth a pholisïau perthnasol. Mae hefyd yn bwysig gweithio mewn ffordd gydweithredol sy'n grymuso unigolion a'u rhoi yn ganolog i'n hymarfer, mewn ffordd gwrth-wahaniaethol. Mae'r cod ymarfer hefyd yn nodi'r angen i mi fod yn gyfrifol am fy ngwaith fy hun a chymryd cyfrifoldeb am gynnal a datblygu gwybodaeth a sgiliau gan weithio yn agored gydag unigolion a chyd- weithwyr a'u parchu. Er mwyn gallu gweithio'n effeithiol gydag unigolion mae hefyd yn angenrheidiol fy mod yn ystyried hunan- ymwybyddiaeth, emosiynau a'n werthoedd.

Nifer geiriau 4,310

Adran 5

Diogelu

*Canllawiau: Mae Gofal Cymdeithasol Cymru angen i weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso i ddarparu tystiolaeth am eu dealltwriaeth o waith diogelu gydag oedolion a phlant. Bydd yr aseiniad isod yn eich galluogi i ddangos hyn. **D.S. os yw eich maes gwaith arferol ym maes plant dylech ysgrifennu am ddiogelu oedolion.** Os ydych fel arfer yn gweithio gydag oedolion yna dylech ysgrifennu am ddiogelu plant.*

Mewn maes sydd ddim yn brif ganolbwynt i'ch gwaith (gweler y canllawiau uchod), esboniwch beth yw'r ddeddfwriaeth berthnasol, y polisïau a'r gweithdrefnau cenedlaethol, lleol a sefydliadol ar gyfer diogelu.

500 gair (+/- 10%: dylech gynnwys nifer y geiriau ar ddiwedd pob rhan)

Gan fy mod yn gweithio gyda phlant byddaf yn sôn am amddiffyn oedolion yn yr adran yma. Mae adran 7 o DdLIGCC yn diffinio 'oedolyn mewn perygl' fel rhywun

- (a) sy'n profi camdriniaeth neu esgeulustod neu sydd mewn perygl o hynny*
- (b) sydd ag anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn cwrdd ag unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio); a*
- (c) o ganlyniad i'r anghenion hynny, rhywun nad yw'n medru amddiffyn ei hun rhag y gamdriniaeth neu'r esgeulustod neu'r perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod.*

Gall olygu camdriniaeth gorfforol, rywiol, emosiynol, seicolegol neu ariannol mewn cartel yr unigolyn, sefydliad neu unrhyw le cyhoeddus.

Yn ogystal â hyn mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar asiantaethau perthnasol i adrodd i'r awdurdod lleol os oes amheuaeth bod oedolyn yn oedolyn mewn perygl. Mae'n ddyletswydd hefyd i'r awdurdod lleol adrodd i awdurdod lleol os oedolyn mewn perygl neu mewn amheuaeth o fod mewn perygl yn symud ardal.

Rhoddir dyletswydd hefyd ar yr awdurdod lleol i wneud ymholiadau ble ceir amheuaeth resymol fod oedolyn mewn perygl o gamdriniaeth neu niwed, os yw'r unigolyn yn byw yn yr ardal ai peidio. Os yw'r gamdriniaeth yn cael ei adrodd i Wasanaethau Cymdeithasol, mae dyletswydd arnynt i wneud ymholiadau er mwyn gallu penderfynu ar y cyd gyda'r Heddlu a phartneriaid allweddol os oes angen cynnal ymchwiliad o dan ganllawiau a osodir o fewn *Gweithdrefnau Interim Cymru Gyfan ar gyfer Amddiffyn Oedolion Bregus Rhag Camdriniaeth (2013)*

Rhaid hefyd cofio bod gan oedolyn bregus galluedd meddyliol nes mae'n cael ei brofi fel arall. Mae galluedd hefyd yn benodol i benderfyniad penodol, y cwestiwn a ofynnir yw a oes gan yr unigolyn y gallu i wneud y penderfyniad ar hyn o bryd? Mae'n bosib bod gan unigolyn y galluedd i wneud penderfyniad ynglyn ac un mater ond wrth drafod mater arall, efallai nad oes gan yr unigolyn y galluedd meddyliol i wneud penderfyniad. Mae rhaid parchu bod gan unigolion bregus gyda galluedd meddyliol yr hawl i wneud penderfyniadau annoeth. Mae gan bob unigolyn eu gwerthoedd, credoau a dewisiadau ag gall fod yn wahanol i eraill. Ni ellir trin yr unigolion yma fel nad oes ganddynt alluedd meddyliol oherwydd hyn. (Cod Ymarfer MCA) Golyga hyn bod gan oedolion gyda galluedd yr hawl i fyw mewn sefyllfa ble ceir risg uchel o gamdriniaeth os mai dyma yw eu dymuniad.

Rhaid hefyd cofio am y trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid. Mae ysbyty neu gartref gofal yn adnabod bod unigolyn mewn perygl o amddifadu o ryddid ac yn gofyn i'r awdurdod lleol ei awdurdodi. Mae Deddf Galluedd Meddyliol yn caniatáu cyfyngu rhyddid, cyn belled â'i fod yn 'best interest' yr unigolyn. Os yw cyfyngu rhyddid unigolyn yn cael ei ganiatáu mae angen dulliau diogelu pellach. Gall Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Rhyddid ond cael eu defnyddio mewn ysbyty neu gartref gofal, mewn lleoliadau eraill gall y Llys Gwarchod awdurdodi amddifadu o ryddid. Cyn gall unigolyn gael ei amddifadu o ryddid rhaid cwblhau 6 asesiad (Asesiad Oedran, No refusals assessment, Asesiad Galluedd Meddyliol, asesiad iechyd meddwl, asesiad meini prawf cymhwysedd ac asesiad budd pennaf). Os yw amddifadu o ryddid yn cael ei awdurdodi mae'n rhaid i'r unigolyn gael 'Relevant person's representative' gan amlaf aelod o'r teulu neu dffrind. Mae unigolyn hefyd yn cael mynediad at Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol.

Nifer geiriau 546

Myfyriwch ar y gwahaniaeth rhwng diogelu ym maes gwaith oedolion a gwaith plant.

400 gair (+/- 10%: dylech gynnwys nifer y geiriau ar ddiwedd pob rhan)

Y prif wahaniaethau rhwng diogelu plant ag oedolion yw bod pwerau ar gael o dan Ddeddf Plant 1989 i gymryd plentyn i mewn i ofal yn syth os mewn perygl, nid yw hyn yn bosibl gydag oedolion oni bai eu bod yn dioddef o salwch meddwl ble gellir eu cymryd mewn i ofal o dan Ddeddf Iechyd Meddwl. (Koubel, 2016) Mae hefyd angen ystyried os oes gan oedolyn bregus galluedd meddyliol ai peidio, mae hyn yn weithredol gydag unigolion o 16 oed ymlaen. Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2010 yn nodi;

'... a person lacks capacity in relation to a matter if at the material time he is unable to make a decision for himself in relation to the matter because of an impairment of, or a disturbance in the functioning of, the mind or brain'.

Nid yw unigolyn yn gallu gwneud penderfyniad os yw ef/ hi yn cael eu hasesu fel eu bod methu gwneud un o'r canlynol:

1. Deall y gwybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad; neu
 2. Dal gafael ar y wybodaeth; neu
 3. Defnyddio'r wybodaeth i bwysu a mesur fel rhan o'r broses gwneud penderfyniad; neu
 4. Cyfathrebu eu penderfyniad, boed ar lafar neu gan arwyddo, neu mewn unrhyw ffordd arall.
- Gwahaniaeth arall yw'r gwahaniaeth mewn graddfa amser i ymateb i bryderon amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion. O dan ganllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan mae'n rhaid cael trafodaeth strategol o fewn 24 awr i dderbyn cyfeiriad, gydag oedolion mae'n rhaid cael trafodaeth strategol o fewn 2 ddiwrnod gwaith. Mae'n rhaid cael trafodaeth strategol o fewn 7 diwrnod o dderbyn y cyfeiriad gydag oedolion, 8 diwrnod o dderbyn y cyfeiriad yw'r terfyn amser ar gyfer cael trafodaeth strategol gyda phlant.

Mae rhaid cynnal cynhadledd achos o fewn 15 diwrnod o'r drafodaeth/ cyfarfod strategol o fewn maes amddiffyn plant a chynnal grŵp craidd dim hwyrach na 10 diwrnod o'r gynhadledd achos cychwynnol. Mae angen cynnal 'review case conference' o fewn 3 mis i'r gynhadledd achos cychwynnol.

Yn dilyn y cyfarfod strategol oedolyn mae'n rhaid cwblhau adroddiad ymchwil mor fuan â phosibl o fewn y terfyn amser a gytunwyd yn y cyfarfod strategol, yna dylid ail gynnal cyfarfod strategol yn dilyn cwblhau'r adroddiad. Mae angen cynnal cynhadledd achos o fewn wythnos o'r ail gynhadledd achos. Dylid adolygu'r cynllun Amddiffyn unigol o fewn 6 wythnos o'r diwrnod y cytunwyd y cynllun. Gellir cau'r achos cyn gynted a bo'r risgiau wedi eu datrys neu fod cytundeb wedi ei wneud ar gyfer rheoli unrhyw risgiau sy'n parhau.

Nifer Geiriau: 415

Adran 6

Adolygiad Datblygiadol (b)

Myfyriwch yn feirniadol ar eich datblygiad gan gynnwys cyfeiriad at yr hyfforddiant, dysgu, ymchwil a'r defnydd o oruchwyliaeth ers cwblhau rhan 2. Mewn trafodaeth gyda'ch mentor/goruchwyliwr/rheolwr llinell ystyriwch i ba raddau mae'r anghenion dysgu hynny wedi eu cyflawni. Nodwch unrhyw anghenion dysgu ychwanegol i gefnogi eich datblygiad wrth drosglwyddo i ddod yn ymarferydd profiadol. Yma byddwch yn ystyried yr adborth yr ydych wedi ei dderbyn gan unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd a'u gofawyr a sut mae hyn wedi effeithio ar eich ymarfer.

800 gair (+/- 10%: dylech gynnwys nifer y geiriau ar ddiwedd pob rhan)

Byddaf yn defnyddio model adlewyrchu "The Big Six" ar gyfer yr adran yma; Pŵer, gwerthoedd, teimladau, gwybodaeth, hunanymwybyddiaeth ac ansicrwydd. Rwyf am ddechrau gyda phŵer. Erbyn hyn rwy'n teimlo'n fwy hyderus i herio penderfyniadau uwch-weithwyr/ rheolwyr mewn ffordd adeiladol a proffesiynol. Gyda phrofiad mae'n hyder wedi cynyddu. O ran gweithio o fewn y DLIGCC 2014 rwy'n teimlo bod y Ddeddf yma hefyd yn grymuso defnyddwyr gwasanaeth ac yn rhoi llais iddynt mewn cyddestun cynllunio gofal ac ymateb i'w anghenion. Mae'r ddeddf y rhoi pwyslais ar rymuso unigolion, ac o ganlyniad yn rhoi pŵer yn ôl i unigolion o ganlyniad i'r pwyslais sy'n cael ei roi ar weithio'n gydweithredol gydag unigolion.

Mae gwerthoedd a moeseg yn ganolog i Waith Cymdeithasol ac rwyf o'r farn fod y rhain yn graidd i fy ymarfer. Mae gwerthoedd yn parhau'r un fath ag oeddent ar ddechrau fy siwrne fel gweithiwr cymdeithasol. Rwyf yn barod i herio safbwyntiau eraill sy'n dangos rhagfarn tuag at unigolion o fewn ein cymdeithas. Yn ddiweddar rwyf wedi sylwi bod cymdeithas yn fwy parod i farnu unigolion o gefndiroedd gwahanol, o allu gwahanol ayyb, ac rwy'n teimlo ei bod yn bwysig addysgu unigolion er mwyn sicrhau nad yw aelodau o'r gymdeithas yn cael eu hanfanteisio o ganlyniad i farn a safbwyntiau rhagfarnllyd. Hefyd wrth weithio gydag unigolion rwyf o hyd yn ceisio cadw'r frawddeg "sut y byddwn i'n dymuno cael fy nhrin yn y sefyllfa yma" mewn cof wrth weithio gydag unigolion.

Fel rwyf wedi dod yn fwy profiadol, rwyf hefyd wedi dod yn fwy ymwybodol o'n nheimladau ac rwyf yn adlewyrchu yn aml ar hyn. Mae'n nheimladau yn bositif gan amlaf, ond mae adegau ble mae hefyd yn cael effaith negyddol arnaf. Rwyf wastad eisiau gwneud fy ngorau a chwblhau gwaith i'r safon uchaf posibl. Os nad wyf yn llwyddo i wneud hyn mae'n gallu effeithio'n negyddol arnaf. Wrth edrych yn ôl, rwy'n teimlo bod cael cydbwysedd rhwng amser gwaith ac amser adref yn gallu bod yn sialens i mi. Mae hyn o bosib gan fy mod yn gosod safonau a disgwyliadau uchel arnaf fi fy hun. Mae hefyd wedi bod yn sialens i mi gadw at derfynau amser gweithio gan fy mod angen sicrhau bod fy ngwaith yn ddigon trylwyr bob amser. Mae hyn yn anodd ac mae rheoli fy amser a'r disgwyliadau yn her. I'n helpu gyda hyn rwyf wedi sylweddoli fy mod ar adegau yn rhoi gofynion afrealistig arnaf, mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol er mwyn sicrhau nad wyf yn gwneud gormod, ac yn arbed fy hun rhag dioddef "burn out". Rwyf hefyd yn cael hi'n anodd derbyn canmoliaeth, mae cael goruchwyliaeth reolaidd sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad ac sy'n cynnwys edrych ar fy nghryfderau yn ogystal ag mannau i wella wedi fy helpu i fod yn fwy parod i dderbyn canmoliaeth.

Rwyf wedi mynychu nifer o sesiynau hyfforddiant ers cwblhau adran 2. Mae'r rhan fwyaf wedi bod yn berthnasol a defnyddiol ar gyfer fy ngwaith dydd i ddydd. Y rhai mwyaf buddiol yn fy marn i oedd

'collaborative communication', ymarfer adlewyrchol a goruchwyliaeth, mae'r rhain wedi fy ngalluogi i ddatblygu fy sgiliau ymhellach. O ganlyniad rwyf wedi datblygu sgiliau personol canolog e.e. defnyddio dulliau megis 'diwrnod da', 'diwrnod drwg', cylch perthynas ar gyfer mapio cefnogaeth sydd ar gael i'r unigolyn a'r teulu. Mae mynychu hyfforddiant yn angenrheidiol ar gyfer sicrhau datblygiad proffesiynol, sydd hefyd yn ddisgwyliad o weithwyr cymdeithasol. Noder y cod ymarfer bod rhaid i weithwyr cymdeithasol "fod yn atebol am ansawdd eich gwaith a chymryd cyfrifoldeb dros gynnal a datblygu gwybodaeth a sgiliau" Cyngor Gofal (2017)

Mae hunanymwybyddiaeth yn hanfodol ar gyfer ymarfer adlewyrchol. Mae ymarfer a phrofiad wedi sicrhau bod hyn wedi dod yn fwy rhwydd. Mae adlewyrchu wedi fy ngalluogi i adnabod fy nghryfderau a'n wendidau. Un o'n nghryfderau yw, darganfod ffyrdd newydd o weithio gydag unigolion er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn gwasanaeth sy'n ymateb i'w anghenion, rwy'n mwynhau newid a cheisio gwella profiadau i unigolion. Un o'r mannau y buaswn yn hoffi datblygu yw ffyrdd amrywiol o gyfathrebu gydag unigolion dilafar, er mwyn sicrhau bod y rhyngweithiad yn ystyrlon ac nid yn rhywbeth tocenistiaeth. Mae'r newid diweddar i'r polisi goruchwyliaeth hefyd wedi bod yn ddefnyddiol ar gyfer hybu a datblygu fy sgiliau hunanymwybyddiaeth, gan fy mod yn gallu trafod sefyllfaoedd amrywiol gyda'n rheolwr llinell ac ystyried sut y byddai modd gwneud pethau'n wahanol y tro nesaf.

Yn y gorffennol mae delio gydag ansicrwydd wedi bod yn anodd i mi, ac rwyf wedi ceisio trio gwella bob peth posibl i unigolion a'u teuluoedd. O ganlyniad i DdLIGCC rwy'n fwy parod i roi'r cyfrifoldeb ar eraill i ymateb i anghenion unigolion yn hytrach na cheisio datrys popeth fy hun. Rwy'n teimlo fod y Ddeddf newydd yn rhoi strwythur ar gyfer recordio'r penderfyniadau yma tra hefyd yn fy ngalluogi i recordio rheswm dros wneud penderfyniad. Mae hyn wedi datblygu fy hyder i basio cyfrifoldebau ymlaen i eraill e.e. adran addysg, ymwelydd iechyd, adran therapy iaith a lleferydd ayyb. Rwyf hefyd yn mwynhau ymchwilio i mewn i feysydd rwyf angen datblygu e.e. "Co-production" er mwyn ceisio datblygu'r gwasanaeth a cheisio ymateb anghenion unigolion mewn ffyrdd gwahanol o ystyried y pwysau ariannol sy'n cael ei roi ar wasanaethau yn dilyn toriadau i gyllidebau awdurdodau lleol.

Nifer geiriau 873

Cofnodwch yn y tabl isod ddyddiadau i bob gweithdy rhaglen gyfnerthu a fynychwyd gennych.

Gweithdy Cadarnhau	Dyddiad mynychu
1	03.05.17
2	12.07.17
3	21.09.17
4	30.01.18

Nodiadau

Sylwadau'r Mentor

Rhowch sylwadau llawn ar ddatblygiad y dysgwr yn ystod cyfnod yr holl raglen. Adfyriwch ar yr wybodaeth a ddarparwyd gan y dysgwr yn adran 2 ar ddechrau'r rhaglen a'r safbwyntiau diweddarach a roddwyd yn adran 6. Lle yr ydych wedi gweld neu drafod adborth gan unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau, teuluoedd neu ofalwyr, fe'ch anogir i roi sylw ar hyn o safbwynt datblygiad y dysgwr.

I arrived at the chosen setting for the observed session before the social worker and young person came I and was able to look at the best way to set up the room. It was a long room with a large table in the centre and chairs around it. I sat at one end hoping that they would be able to use the further side of the table for their discussion,

When they arrived I thought that both looked a little anxious but only because of the falseness of the situation. I spoke to the young person again to explain the purpose of the session and whether she was still happy for me to observe.

She was and the social worker then began the conversation by updating on the actions and events that had taken place. I knew the young person's situation quite well and was aware that she was not very talkative. The SW took out some drawing paper and an array of pencils and felt tips. The young person almost immediately selected what she wanted to use and began to draw as they both began to chat.

The SW did share the main purpose of their session - to talk about the possibility of the YP going back into an education setting. She set the scene for the young person by going over some of the things they had previously discussed – likes and dislikes and then gently introduced the idea of the unit.

The social worker did this very sensitively and did guide the young person through their previous conversations and the detail of some of the things they had shared as a prompt and reminder. I think this also helped the Young person appreciate that what she had said was not forgotten and had value and status.

Throughout their conversation the young person made little eye contact and continued to draw /sketch – young people in the style of Japanese comic books. However it was possible to see that when some direct topics were mentioned that needed a response or comment the young person would make eye contact and stop drawing. I noticed that these breaks were when she wanted to ask something or disagreed with something the Social worker said.

I felt that the relaxed body language between the two and the fact that both were comfortable with one drawing and the other guiding the conversation showed a level of mutual respect. Some Social Workers would have felt under pressure and uncomfortable if the person they were taking to was otherwise occupied and may appear not to be listening but I could see that this was the style their sessions used when in a formal/indoor session.

It was interesting when I spoke to the young person on their own after the session that she said that she liked to go out with the Social Worker but also good for me to see that they used different settings and environments to have their discussions. I think the social worker understood that providing a variety of opportunities for the young person kept their relationship fresh and moving forward rather than if they had met in the family home each time.

I have written the young person's responses as they were shared, and again she kept drawing and gave me two of her sketches at the end of our conversation.

Christina has worked within Specialist Children's Services since June 2015 and throughout this time I have been her line manager. I have seen Christina develop her skills and increase in confidence about her own abilities as a social worker.

Her assessment and analysis skills have improved and in supervision it is clear that she is able to make hypotheses relevant to situations and possible outcomes for individuals and their families.

She is able to get her point across and will confidently challenge other professionals if she does not agree with their perspective and interpretation. For example Christina's assessments usually provide an accurate reflection of the needs self-identified by families and will challenge other professionals who may have been prescriptive about services at the point of referral in a positive way.

Feedback from families and children and young people is positive about the way Christina works with them. Families do appreciate her honesty and clarity and although this can sometimes cause friction she is able to maintain a positive relationship with them to try to move things forward. She is aware of the 'power imbalance' and ensures that she does not use this to the detriment of the individuals and families she works with.

Christina is realistic about making use of available services and resources and work is positive and creative so that people remain as independent as possible, but recognising when families need extra support.

Christina works in equal partnership with the family and the disabled child/young person. She is able to work as part of a team effectively but has very high professional standards and expects that from other professionals, and can be frustrated at times by this. However she is aware of this and we do discuss this matter in formal and informal supervision when needed and can see things from the wider 'bigger picture' perspective.

Christina has developed her skills in using the What Matters and Care and Support Assessment during the past 12 months. She has shared these with families and they have understood the outcomes identified and what is being worked towards with individuals and has been creative in the way she has done this

In the spirit of Collaborative Communication and Co Production Christina has developed a range of tools that she can use with individuals and families. She will adapt these to suit the situation and circumstances to ensure that they are not used in a tokenistic way.

I have observed Christina's direct work with children in different settings. It was clear that she had built the trust of the young person and been able to use the young person's interests i.e. Art and drawing as a way to explore 'What Mattered' to the young person and help them move on and return to formal education after a number of years of staying at home. (See observation record)

Recently Christina has worked with a number of young people who have profound and multiple disabilities and has demonstrated her commitment to hearing the young person's voice and ensuring that other professionals do the same. She has shown insight and an ability to be creative in the way she communicates with a wide range of disabled children and young people.

Christina takes advantage of relevant training opportunities and will always discuss what she has learnt and how she can incorporate it into her daily work. She has the ability to take valuable learning from negative situations and see it's positive side.

Christina works to develop resilience in the families she works with and will support them to make changes however big or small so that can have a positive impact on their lives.

Adran 7

Llyfryddiaeth

Gellir gweld gwybodaeth am gyfeirio mewn aseiniadau ysgrifenedig a sut i osgoi llên-ladrad ar Moodle. Mae hi yn bwysig eich bod yn ymwybodol pa mor bwysig yw sicrhau bod y gwaith a gyflwynwyd yn waith gwreiddiol i chi.

Beckett, C (2008) *Child Protection: An Introduction*. 2nd ed. London: Sage Publications.

Beckett, C & Horner, N. (2010) *Essential Theory for Social Work Practice*. London: Sage

Brayne, H & Carr, H (2015) *Law for Social Workers*. 13th ed. Oxford: Oxford University Press.

Corcoran, J (2016) *Motivational Interviewing: A Workbook for Social Workers*. New York: Oxford University Press.

Department of Education (2014) *The young person's guide to the Children and Families Act 2014*. London: Department of Education.

Gofal Cymdeithasol Cymru. (2017) *Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol*. Caerdydd: Gofal Cymdeithasol Cymru.

Gofal Cymdeithasol Cymru. (2015) *What Does the Act Mean for Me? A learning and development resource for direct care and support workers on the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014*. Caerdydd: Gofal Cymdeithasol Cymru.

Heddlu Gogledd Cymru, Communicating with children, Cyflwyniad DC 146 Wendy Jenks- Gilbert, Crime trainer, 2015.

Hennessey, R (2011) *Relationships in social work*. London: Sage.

Hughes, L & Owen, H (2009) *Good Practice in Safeguarding Children: Working Effectively in child protection*. London: Jessica Kingsley Publishers.

Ingleby, E (2006) *Applies Psychology in Social Work*. Exeter: Learning Matters.

Koprowska, J (2008) *Communication and Interpersonal Skills in Social Work*. London: Sage Publications

Koubel, A (2016) *Safeguarding Adults & Children*. London: Palgrave

Lefvere, M (2010) *Communicating with Children and Young People: Making a Difference*. Bristol: The Policy Press.

Llywodraeth Cymru, (2015) *Developing a person centred organisation A self assessment tool and practical steps for progress*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2017) *Mwy na Geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol*. Caerdydd: Uned Polisi Iaith Gymraeg

Llywodraeth Cymru, (2015) *Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015: The Essentials*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Maclean, S (2016) *Reflective Practice Cards: Prompt cards for social workers*. Litchfield: Kirwin Maclean

Morrison, F (2016) *Social Workers' Communication with Children and young people in Practice*. Scotland: Iriss.

Ratner, H & Yusuf, D. (2015) *Brief Coaching with children and young people: A solution focused approach*. East Sussex: Routledge

Ross, J (2016) *Specialist Communication Skills for Social Worker: Developing Professional Capability*. 2nd ed. London: Palgrave

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. (2013) *Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol*. Llundain: TSO

Tidbury, W (2014) *Safeguarding children with autism*. London: National Autistic Society.

Wosu, H & Tait, A (2013) *Direct Work with vulnerable Children: Playful Activities and Strategies for Communication*. London: Jessica Kingsley Publications.

White T (2011) *Working with suicidal individuals a guide to providing understanding, assessment and support*. London: Jessica Kingsley Publication.

Zastrow, C (2008) *Social Work with Groups: A comprehensive workbook* 7th ed. Belmont: USA Cengage Learning,

Buckley H, Carr N and Whelen S (2011) 'Like walking on eggshells': service user views and expectations of child protection. *Child and Family Social Work*, 16, 1, 101-110

Davies P. (2011) 'The impact of a child protection investigation: A personal reflective account', *Child and Family Social Work*, 16(2), pp. 201–9.

Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Ar gael o <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2005/9/contents> (Cyrchwyd 17 Tachwedd 2017)

Deddf Hawliau Dynol 1998. Ar gael o <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/42/contents> (Cyrchwyd 10 Rhagfyr 2017)

Deddf Llesiant a Gwasnaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 Ar gael o http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_en.pdf (Cyrchwyd: 27 Chwefror 2018)

Deddf Plant 1989 Ar gael o <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/41/contents> (Cyrchwyd: 27 Chwefror 2018)

Children in Wales. 2008. *Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008)*. [AR LEIN] Ar gael o: <http://www.childreninwales.org.uk/policy-document/wales-child-protection-procedures-2008/>. [Cyrchwyd 13 Rhagfyr 2017].

Community Care. 2008. *Personalisation: the history and the basics*. [Ar Lein] Ar gael o: <http://www.communitycare.co.uk/2008/10/29/personalisation-the-history-and-the-basics/>. [Cyrchwydd 17 Hydref 2017].

Department of Education. 2014. *The young person's guide to the Children and Families Act 2014*. [AR LEIN] Ar gael o: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/359681/Young_Persons_Guide_to_the_Children_and_Families_Act.pdf. [Cyrchwyd 13 Mawrth 2018].

Gwasanaeth Iechyd Cymru. 2010. *Canllawiau Amddiffyn Oedolion Cymru Gyfan 2010*. [AR LEIN] Ar gael o: <http://www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1143/Safeguarding%20Adults.pdf>. [Cyrchwyd 13 Rhagfyr 2017].

Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (AR LEIN)l. Ar gael o <https://www.ukstandards.org.uk/PublishedNos/SCDSW1.pdf#search=social%20work> (Cyrchwyd 17 Ionawr 2018)

The Guardian. 2016. *Study offers potential breakthrough in care of children with autism*. [AR LEIN] Ar gael o: <https://www.theguardian.com/society/2016/oct/25/autisc-children-therapy-method-potential-breakthrough-care-preschool-autism-communication-trial>. [Cyrchwyd 13 Mawrth 2018].

Green, J, 2010. Parent-mediated communication-focused treatment in children with autism (PACT): a randomised controlled trial. *The Lancet*, [Ar lein]. 375/9732, 2152-2160. Ar gael o: [http://www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS0140-6736\(10\)60587-9/fulltext](http://www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS0140-6736(10)60587-9/fulltext) [Cyrchwyd 13 Mawrth 2018].

UNICEF (2018). *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*. (AR LEIN) Ar gael o https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2010/05/UNCRC_united_nations_convention_on_the_rights_of_the_child.pdf?ga=2.162505532.1466272601.1520973087-1626220288.1503583110 (Cyrchwyd 11 Tachwedd 2017)

Adran 8

Manylion a llofnodion dysgwyr a gwiriad rheolwyr llinell

Cyfrifoldeb y dysgwr yw sicrhau bod eu rhif dysgwr prifysgol wedi ei roi yn gywir pan ofynnir am hyn yn y portffolio.

Manylion y Dysgwr

(D.S. mae hi yn hanfodol eich bod yn rhoi gwybod i'ch Uned Datblygu Gweithlu/Hyfforddi a Phrifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant os yw eich enw neu eich cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth yn newid).

1. Enw'r Dysgwr Christina Darbyshire- Jones

2. Rhif cofrestru Prifysgol y Dysgwr: 1404245

Cyfeiriad i anfon gohebiaeth: 23 Maes Hyfryd, Carmel, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7RS

Rhif Ffôn: 07792761601

E-bost: cdjss@ynysmon.gov.uk

Dyddiad Cymhwyster Proffesiynol: Medi 2013

Dyddiad cofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru: 06.01.2014- Cofrestriad fel Gweithiwr Cymdeithasol Cymwysiedig am y tro cyntaf. Wedi adnewyddu Cofrestriad ar 09.01.2018.

3. Enw Asiantaeth y Dysgwr: Gwasanaethau Arbenigol Plant

Manylion cyswllt yr Asiantaeth:

Enw: Gwasanaethau Arbenigol Plant

Cyfeiriad: Cyngor Ynys Mon, Swyddfa'r Cyngor, Ffordd Glanhwfa, Llangefni, Ynys Mon, LL77 7TW

Rhif Ffôn: 01248 752984

Cyfeiriad e-bost: cdjss@ynysmon.gov.uk

4. Mae'r dystiolaeth yr wyf wedi ei darparu yn y portffolio yma yn:

Gymraeg yn unig Cymraeg a Saesneg X Saesneg yn unig ☐

Manylion y Mentor

5. Manylion y Mentor

Enw: Melanie Jones

Cyfeiriad: Gwasanaethau Arbenigol Plant, Cyngor Ynys Mon, Swyddfa'r Cyngor, Ffordd Glanhwfa, Llangefni, Ynys Mon, LL77 7TW

Rhif Ffôn: 01248 752984

Cyfeiriad e-bost: mjxss@ynysmon.gov.uk

6. Manylion yr Arsyllwr

Enw: Melanie Jones

Cyfeiriad gwaith: Gwasanaethau Arbenigol Plant, Cyngor Ynys Mon, Swyddfa'r Cyngor, Ffordd Glanhwfa, Llangefni, Ynys Mon, LL77 7TW

Cymhwyster Proffesiynol a dyddiad y cymhwyster: CQSW 1986

E-bost a Rhif Ffôn: gweler uchod

Llofnodion a gwiriad y Rheolwr Llinell

CYFRINACHEDD a LLÊN-LADRAD - I'w gwblhau gan y dysgwr

Mae'r holl wybodaeth a ddarparwyd yn y portffolio yma yn cydymffurfio gyda'r canllaw ar gyfrinachedd. Cadarnhaf fod yr holl waith ac eithrio am y sylwadau gan eraill (e.e. mentor neu unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau) i gyd yn waith gwreiddiol gennyf i ac nid wyf wedi ei gopïo. Deallaf fod llên-ladrad yn cael ei ystyried yn ddifrifol gan y Brifysgol a'r rhaglen.

Llofnod: C. Dr. Byshive - Jones (Dysgwr)

Dyddiad: 14.03.18

Adborth a sylwadau gan unigolyn sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teulu neu ofalwyr (Adran 3)- i'w lenwi gan yr Arsyllwr

Cadarnhaf fy mod yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig gyda gwybodaeth am faes ymarfer y dysgwr a bod y crynodeb arsyllu a'r sylwadau gan y defnyddwyr gwasanaeth a/neu'r gofalwyr uchod am yr un darn o ymarfer ag a welais fy hun ar y dyddiad a nodwyd.

Llofnod: mona (Arsylllydd)

Dyddiad: 14.03.18

Gwiriad Rheolwr Llinell

Canllawiau: Rhaid i reolwr llinell neu uwch ymarferydd y dysgwr lenwi ac arwyddo'r rhan yma. Dylai ef/hi fod yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig sy'n gyfarwydd gyda gwaith diogelu ac yn gallu cadarnhau bod y dysgwr wedi bod yn rhan o'r achos a dystiwyd yn rhan 4 o'r portffolio gan hefyd gwrdd â'r holl feini prawf gofynnol eraill a restrwyd.

Cadarnhewch yn y rhan yma eich bod wedi gweld digon o waith y dysgwr yn ystod y cyfnod maent wedi bod yn dilyn y rhaglen Gyfnerthu. Os oes angen, dylech ymgynghori gyda rheolwyr eraill mae'r dysgwr wedi gweithio iddynt. Drwy arwyddo'r darn yma 'rydych yn cadarnhau eich bod yn fodlon gyda:

- lefel yr oruchwyliaeth a'r gefnogaeth fentora a gafodd y dysgwr
- y dysgu a'r datblygu a ddigwyddodd
- y darllen a'r gwaith ymchwil personol a wnaed

- lefel yr wybodaeth a'r sgiliau a ddangoswyd
- y ddealltwriaeth a ddangoswyd o'r Cod Ymarfer a Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol
- gwerthoedd craidd y dysgwr
- cynnwys y cynllun datblygu sydd yn y portffolio
- y gwaith a'r sylwadau y cyfeirir atynt yn y portffolio, mai gwaith y dysgwr ei hun yw'r gwaith a'i fod wedi ei seilio ar ymarferion cyfredol

Cadarnhaf fod y dysgwr yma wedi cyrraedd lefel briodol o ymarfer proffesiynol.

GWIRIAD RHEOLWR LLINELL:

ENW'R RHEOLWR LLINELL: MELANIE JONES-----

LLOFNOD Y RHEOLWR LLINELL : m Jones-----

DYDDIAD: 14/03/18-----

Adran 9

PORTH AGORED a PHRIFYSGOL CYMRU, Y DRINDOD DEWI SANT TYSTYSGRIF I RADDEDIGION MEWN CADARNHAU YMARFER GWAITH CYMDEITHASOL

CYTUNDEB DYSGU DYSGWR A CHYFLOGWR

Enw'r Dysgwr	Christina Darbyshire-Jones
Enw'r Tîm/Asiantaeth	Gwasanaethau Arbenigol Plant
Enw'r Mentor	Melanie Jones
Enw'r Rheolwr Llinell	Melanie Jones

Dyletswydd Astudio

Bydd y dysgwr yn ymgymryd â holl elfennau'r rhaglen Tystysgrif i Raddedigion yn ddiwyd, gan gynnwys mynychu'r sesiwn anwytho , pedwar Gweithdy Cadarnhau a chymryd rhan mewn arolwg gwerthuso neu grŵp ffocws wedi cwblhau'r rhaglen.

Mae enw llawn y dysgwr a'i gyfranogiad effeithiol ar y Dystysgrif i Raddedigion yn orfodol o gofio fod Gofal Cymdeithasol Cymru wedi gwneud cwblhau'r rhaglen yn ofyniad o fewn y cyfnod cyntaf (tair blynedd) o gofrestru fel Gweithiwr Cymdeithasol. (Cymhwyso Ebrill 2016 ymlaen)

Absenoldeb astudio

Mae'r cyflogwr yn cytuno i gefnogi'r dysgwr drwy ddarparu absenoldeb wedi ei dalu yn llawn i'r dysgwr fynychu'r holl gyrsiau cyflwyno, Gweithdai Cadarnhau, cyfarfodydd gwerthuso'r rhaglen neu hyfforddiant a gytunwyd. Yn ychwanegol, gellid cymeradwyo tri diwrnod tâl ychwanegol gan y rheolwyr fel cyfraniad tuag at yr amser sy'n gysylltiedig gydag ymchwil personol a datblygu'r portffolio i'w gyflwyno. Cyfrifoldeb y dysgwyr yw trafod hyn gyda'u rheolwr a phan maent eisiau cymryd y cyfnod absenoldeb yma. Gellid cymryd y dyddiau astudio yn ystod unrhyw ddiwrnod o'r wythnos (neu gyfuniad o ddyddiau) cyn belled â (i) ei bod yn briodol i amser paratoi'r portffolio ar y pryd, a (ii) y cytunwyd gyda Rheolwr y Tîm fydd yn rhoi ystyriaeth i anghenion y tîm a'r gwasanaeth. Mae lefel y amser astudio a ddisgrifir yma yn tybio bod y dysgwr yn gweithio oriau llawn amser. Os yw'r dysgwr yn gweithio llai na 37 awr yr wythnos bydd yr amser yn cael ei gymeradwyo yn unol â pholisïau lleol y cyflogwr.

Adnoddau

Gall y dysgwyr gael mynediad i ddeunyddiau dysgu a llyfrgell o adnoddau presennol eu cyflogwr neu fel a ddisgrifiwyd yn Llawlyfr y Rhaglen o'r Brifysgol. Mae'r cyflogwr yn deall fod y Dystysgrif i Raddedigion i'w chwblhau gan Weithwyr Cymdeithasol sydd newydd gymhwyso yn ystod eu cyfnod cofrestru cyntaf a bydd yn cefnogi'r amserlen yma. Ond, mae yna hefyd ddisgwyl bod dysgwyr ar raglen ddatblygu broffesiynol yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysg eu hunain gan hefyd ddefnyddio eu hamser eu hunain ar gyfer astudio personol a pharatoi portffolio.

Mae adran hyfforddiant y cyflogwr yn cytuno i:

- Drefnu fod staff cymwys yn ymuno â'r rhaglen
- yn talu ffioedd y cwrs yn uniongyrchol i'r Brifysgol
- yn darparu arweiniad ychwanegol a chefnogaeth drwy:
 - a) hwyluso mynediad i ddeunyddiau dysgu presennol neu adnoddau llyfrgell
 - b) darparu cyfleoedd hyfforddi priodol o'r rhaglen hyfforddiant mewnol presennol fel y cytunwyd gyda'r dysgwr a'r mentor
 - c) darparu cyflwyniad i'r rhaglen a'r Gweithdai Cadarnhau
 - d) darparu arweiniad a chefnogaeth i ddysgwyr am ofynion y rhaglen a chwblhau'r portffolio
 - e) helpu datrys unrhyw drafferthion a gyfyd gyda'r rhaglen gan y dysgwr, mentor neu reolwyr gwasanaeth

Mae'r dysgwr yn cytuno i:

- weithio yn brysur i gwblhau cymhwyster yn ystod yr amserlen a gytunwyd o 12 mis o ddyddiad cofrestru ar y rhaglen
- yn adnabod gyda'r rheolwr/mentor hyfforddiant mewnol priodol a threfnu i fynychu'r cyrsiau hyn
- Yn adnabod gyda'r rheolwr/mentor a'r Rheolwr Hyfforddi unrhyw ofynion arbennig e.e. dyslecsia gan gysylltu gyda Gwasanaethau Myfyrwyr y Brifysgol yn uniongyrchol am y gefnogaeth ychwanegol a fydd efallai ei hangen
- yn mynychu cyflwyniad a phedwar Gweithdy Cydnerthu. Dyma elfennau gofynion gorfodol y rhaglen
- cynhyrchu gwaith a thystiolaeth sy'n briodol i'r portffolio a'r canlyniadau dysgu mewn amserlenni cytunedig
- gwneud a chadw at apwyntiadau a gytunwyd gyda'r mentor/rheolwr llinell
- sicrhau eu bod wedi paratoi yn ddigonol a chael unrhyw cydsynio sydd ei angen ar gyfer arsylwi ymarfer
- hysbysu'r mentor/rheolwr llinell a'r adran hyfforddi ar unwaith os oes unrhyw broblemau neu newidiadau mewn amgylchiadau wrth ddilyn y rhaglen, yn enwedig os gallai hyn effeithio ar gwblhau'r rhaglen erbyn y dyddiad cau a gytunwyd neu allu'r unigolyn i fynychu gweithdy gorfodol.
- cyd-gysylltu gyda'i reolwr llinell/mentor i gadarnhau dyddiau astudio a defnyddio eu hamser eu hunain i astudio ar eu pennau eu hunain, ymchwil a pharatoi'r portffolio
- cymryd cyfrifoldeb personol am baratoi a chwblhau'r holl waith sydd ei angen i gyflwyno eu portffolio
- gweithredu bob amser yn unol â'r Cod Ymarfer, polisïau, gweithdrefnau a phrosesau'r cyflogwr a'r Brifysgol
- sicrhau eu bod yn deall yr angen i gwblhau'r rhaglen yn ystod y cyfnod cyntaf (tair blynedd) o gofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru

Rheolwr Llinell/Mentor yn cytuno i:

- fynychu cyfarfod cyflwyno i ddod yn gyfarwydd gyda gofynion y rhaglen
- darparu neu drefnu i ddarparu cyfleoedd asesu digonol fel bod y dysgwr yn gweld medrusrwydd ac i gynnal y gwaith arsylwi gofynnol. Os nad oes cyfleoedd ar gael ar unwaith yn y tîm, trefnu i'w darparu mewn man arall yn y Gwasanaeth,
- arwain a chefnogi'r dysgwr am gyfnod y rhaglen
- rhyddhau'r dysgwr ar gyfer cyflwyniad y rhaglen a'r Gweithdai Cadarnhau ac unrhyw gyrsiau hyfforddi mewnol sy'n briodol i gwrdd â'r gofynion dysgu cytunedig.
- cytuno gyda'r dysgwr, defnyddio hyd at dri diwrnod gwyliau ychwanegol gyda thâl dros holl gyfnod y rhaglen, fel cyfraniad at yr amser sydd ei angen ar gyfer astudio personol, ymchwil neu ddatblygu'r portffolio
- Cynnal sesiynau goruchwyllo gyda'r dysgwr, yn ddelfrydol bob mis, a sicrhau bod hyn yn ymgorffori cefnogaeth fentora a monitro'r gwaith sydd wedi ei wneud ac yn dal heb ei wneud. Cadw cofnod llawn o ddyddiadau'r sesiynau goruchwyllo a chofnodi trafodaethau ac unrhyw beth a gytunir.

Cwblhau a Chyflwyno'r portffolio

Disgwylir i'r dysgwyr gwblhau'r Dystysgrif i Raddedigion ac fel arfer byddant yn cyflwyno eu portffolio cyn pen 12 mis o fynychu'r cwrs cyflwyno i'r rhaglen. Os fydd unrhyw Ddysgwr yn rhagweld y bydd trafferth i gwrdd â'r gofyniad yma dylai drafod y mater yn syth gyda'i Reolwr Hyfforddi/Cydlynnydd

Bydd y broses cyflwyno portffolio a'r dyddiadau i bob cohort yn cael eu cyhoeddi ar Moodle. Unwaith y byddant wedi cofrestru ar raglen ni all y dysgwyr newid y dyddiad cyflwyno heb ddod i gytundeb gyda'r cyflogwr a'r Brifysgol.

Nid yw pwysau gwaith yn cael ei ystyried fel rheswm i beidio â mynychu unrhyw Weithdy Cadarnhau.

Deallaf a derbyniaf delerau ac amodau'r cytundeb dysgu yma fel y nodwyd uchod.

Llofnod..... Enw mewn llythrennau bras:..... Dyddiad: 14.03.18
(Dysgwr)

Llofnod:..... Enw mewn llythrennau bras:..... Dyddiad: 14.03.18
(Rheolwr Llinell/Mentor)

Llofnod:..... Enw mewn llythrennau bras:..... Dyddiad:.....
(Mentor, os yn wahanol i'r uchod)

GOSODWCH Y COPI SYDD WEDI EI ARWYDDO O'R CYTUNDEB DYSGU YMA YN ADRAN 9 O'R PORTFFOLIO.

